

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 523 • Medi 2021 • 50c

Dathlu a chofio ein hanes



Murlun lliwgar newydd yng ngardd Tan Twr, Bethesda - Sian Gwenllian, Aelod Senedd Cymru a'r Cynghorydd Rheinallt Puw yn ymweld yn ddiweddar

Wrth i Ddyffryn Ogwen ynghyd â nifer o gymunedau llechi eraill Gwynedd ddod i arfer â'r ffaith eu bod bellach yn safle treftadaeth y byd, mae murlun newydd wedi ei gwblhau sy'n taro golwg nôl ar hanes diwydiannol a diwylliannol yr ardal.

Mae'r murlun newydd a gwblhawyd gan Darren Evans yn cyd-fynd â datblygiadau yng ngardd Tan Twr. Mae'r gwaith trawiadol yn rhan o ddathliadau Dau-can mlwyddiant Bethesda ac yn dilyn ymgynghori gyda'r gymuned leol.

Ariannwyd y gwaith o Gronfa Treftadaeth y Loteri i gyd-fynd gyda'r cais am statws UNESCO. Amserol felly oedd bod y dadorchuddiad swyddogol o'r murlun ar noswyl y cyhoeddiad fod tirwedd llechi'r ardal wedi sicrhau statws safle treftadaeth y byd.

Am ragor o'r ymateb i'r newyddion fod Dyffryn Ogwen ymhlith ardaloedd Safle Treftadaeth y Byd diweddaraf UNESCO, trowch i dudalennau 4-5.

Apêl Eglwys Glanogwen

Mae Eglwys Crist Glanogwen wedi sefyll yn adeilad amlwg yn y dyffryn ers bron i ddau gant o flynyddoedd, gan wasanaethu'r ardal gyfan lle bynnag bo'r gofyn.


Bydd nifer helaeth o drigolion Bethesda a'r cylch wedi bod mewn gwasanaeth yn yr eglwys dros y blynyddoedd, p'un ai fel aelod neu mewn bedydd, priodas

neu angladd, ac wedi gwerthfawrogi pa mor hardd yw'r adeilad.

Ond mae'r amser wedi dod i ofyn pa mor awyddus ydyw trigolion yr ardal i gadw'r eglwys ar agor ar gyfer pawb. Mewn archwiliad diweddar cafwyd newyddion braidd yn syfrdanol am gyflwr yr adeilad, sef bod gwaith atgyweirio sylweddol i'w wneud er mwyn trin nifer o broblemau.

Gwelwyd eisoes bod cyflwr y clochdy yn fregus, a'r tywydd wedi cael effaith ddrwg iawn dros y blynyddoedd. Gwelwyd llwydni ar nifer o'r waliau tu mewn, yn dystiolaeth eto o effaith y tywydd. Mae'r to hefyd angen sylw, ynghyd a nifer o fanylion eraill.

Trowch i dudalen 3 am fanylion am yr apêl i gyfrannu tuag at y gwaith atgyweirio angenrheidiol.



Marchnad Ogwen

yn ailgychwyn

Hydref 9^{fed} - Neuadd Ogwen - 9.30

Panel Golygyddol

Ieuan Wyn
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd
(Ffôn 01248 601606)
rmll42@live.co.uk

Swyddogion

CADEIRYDD:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ (Ffôn 600872)
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

Golygyddion

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Carwyn Meredydd.
Y golygydd ym mis Hydref fydd
Rhys Llwyd,
Tonteg, 13 Talycae, Tregarth,
Bangor, Gwynedd, LL57 4AE.
01248 601606
rmll42@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Sadwrn,
25 Medi os gwelwch yn dda.
BYDD Y RHIFYN HWN YN CAEL EI
ARGRAFFU
Casglu a dosbarthu
Nos Iau, 14 Hydref,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan

Gwobrau Awst
£30 (97) Walter W. Williams, Erw Las,
Bethesda.
£20 (51) Dr. Einir M. Young,
Bro Emrys, Talybont.
£10 (184) Enid Roberts,
Cae'r Wern, Tregarth.
£5 (108) Helen Ll. Roberts,
Rhos y Nant, Bethesda.

Gwobrau Medi
£30 (96) Gwynfryn Davies, Caernarfon.
£20 (134) Brenda Wyn Jones, Tregarth.
£10 (98) Godfrey Northam, Rachub.
£5 (104) Wyn Bowen Harris, Talybont.

(Os am ymuno, cysylltwch â Neville
Hughes – 600853)



Ail-gychwyn
argraffu

Oherwydd y pandemig, mae deunaw mis
wedi mynd heibio ers argraffu copi papur
o Lais Ogwan. Rydym felly yn falch iawn o
allu ail-gychwyn gwerthu yn y siopau lleol
a thrwy ein rhwydwaith o ddosbarthwyr
ffyddlon – diolch iddynt am eu cefnogaeth.
Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth
parod yn ystod cyfnod digidol ein papur
bro, ond fe wyddom fod sawl un wedi
edrych ymlaen at gael y Llais yn eu dwylo.
Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod:

- Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub
Barbwr Ogwen, Bethesda
Siop Spar, Llys y Gwynt
- Bangor
Siop Kwiksave,
Siop Late Stop (Bangor Uchaf),
Convenience Store (Penrhosgarnedd)
- Caernarfon
Siop Richards
- Porthaethwy
Awen Menai
- Rhiwlas
Garej Beran

Rhoddion i'r Llais

- £10.00 Mrs. J.W. Jones, Tregarth
£2.00 Mr. Alan Davies, Porthaethwy.
£15.00 Er cof am fy annwyl Eira (Medi
2018) oddi wrth Paul Bernet,
Marlow.
£50.00 Ian a Daphne Russell, Pentref
Llandygai.
£20.00 Di-enw, Gerlan.
£15.00 Er cof am y ddiweddar Mrs. Bethan
Griffiths, oddi wrth Erddyn a'r
teulu.
£10.00 Godfrey Northam, Rachub.
£20.00 Er cof am y diweddar Alaw Jones,
Parc Moch, a fu farw ar 29 Mai 2021.

Diolch yn fawr

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r
deillion, Bangor (01248 353604). Os gwyddoch
am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai
dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag
un o'r canlynol:
Gareth Llwyd – 601415
Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

Marchnad Ogwen

Hwre! ‘Rydan ni yn ôl! Bydd Marchnad Ogwen yn ailgychwyn Hydref y 9fed, gyda phob stondin wedi ei llogi - felly ‘rydan ni yn llawn dop!

Bydd cyfle i chwi brynu ystod eang o fwydydd a nwyddau a chael cyfle i gwrdd â hen ffrindiau a chael sgwrs a phaned yng nghaffi Neuadd Ogwen. Braf iawn fydd cael bod yn ôl.

Dyma fraslun o'r bwydydd fydd ar gael - wyau, llysiau, caws, cacennau, jam, coffi, pate fegan, pastai, cwrw a mwy. Mae'r nwyddau ar ein Stondinau yn cynnwys gwaith gwnïo, gwau, clytwaith, nwyddau pren, mosêc, dillad, canhwyllau, nwyddau harddwch a mwy.

Oherwydd ein bod bellach yn llawn, nid ydym yn gallu cynnig sicrwydd lle i Stodin Elusen bob mis fel o'r blaen. Y ffordd ymlaen ydi cysylltu gyda'r ysgrifennydd, ac os bydd un o'n stondinwyr arferol ni yn methu bod yn bresennol, yna gellir cynnig lle.

Felly, edrychwn ymlaen yn fawr i'ch croesawu unwaith eto. Dyma'r dyddiadau pellach i'w nodi (gyda phob Marchnad yn Neuadd Ogwen):
Dydd Sadwrn, Tachwedd 13eg. o 9.30 - 1.00
Nos Fercher, Tachwedd 24ain. o 5.00 - 8.00.
Marchnad Nadolig
Dydd Sadwrn, Rhagfyr 11eg. o 9.30 - 1.00.
Marchnad Nadolig
Byddwn yn cyfarfod ar yr ail Sadwrn o bob mis trwy 2022.

Mae manylion ar ein tudalen Facebook a'n gwefan marchnadogwen.co.uk

Parhad o'r dudalen flaen...

Costau atgyweirio Eglwys Glanogwen yn £300,000

Fel y bydd trigolion Dyffryn Ogwen yn ymwybodol, mae hanes llewyrchus i Eglwys Crist Glanogwen, yn arbennig ym myd cerddoriaeth. Mae'n debyg fod y pinacl ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf pan oedd côr o 75 dan ofal Mr Idris Evans, Ffordd Penybryn, fel côr-feistr a Mrs Mary Roberts, Braichmelyn yn organyddes.

Mae'r traddodiad cerddorol wedi ei gynnal hyd heddiw wrth gwrs, er nad oes côr bellach, ond mae Mrs Christine Edwards yr organyddes dalentog yn gofalu bod safon y gerddoriaeth yn dal yn uchel. Eglwys Gymraeg yw hi, er y croesewir ymwelwyr o sawl gwlad o bryd i'w gilydd, a chynhelir gwasanaethau dwyieithog yn ôl y gofyn.

Dangosodd yr archwiliad o gyflwr yr adeilad fod amcangyfrif cost yr atgyweirio yn £300,000 – hynny i wneud y gwaith sydd ei angen ar unwaith, heb sôn am y swm fydd ei angen i gwblhau'r gwaith dros y pum mlynedd nesaf.

Y newyddion da yw bod peth arian wrth gefn, a grantiau ar gael ar gyfer y math yma o waith. Ond ni chaniateir grant heb i ni fel ardal ddangos ein bod yn awyddus i atgyweirio'r adeilad, ac yn trefnu gweithgareddau i godi arian.

Felly, bobl ardal Bethesda, beth

amdani? Ydych chi'n fodlon cefnogi'r ymgyrch - fyddwch chi'n barod i roi llaw yn eich poced i helpu'r achos teilwng hwn? Gwell byth, fydddech chi'n barod i drefnu rhyw weithgaredd, bach neu fawr, i godi arian?

Gobeithir y bydd modd cyfarfod a chymdeithasu cyn hir, a bydd yn gyfle da i gael pawb at ei gilydd eto yn ogystal â helpu sawl achos. Mae angen syniadau ar gyfer codi arian, a bydd pob ceiniog yn help.

Mae Claire Morrison wedi camu i'r bwlch yn barod, gan drefnu raffl a phêl bonws drwy fis Gorffennaf er mwyn helpu'r achos – diolch o galon, Claire.

Mae posib cyfrannu i'r gronfa trwy wefan GoFundMe, dim ond mynd ar y we a theipio GoFundMe, ac yna Glanogwen yn y blwch chwilio neu 'Search' ac mi ddaw'r safle i fyny, gyda chyfle i gyfrannu. Hefyd mae Glenys (600371), Barbara (600530) a Lester (602591) ar gael bob amser i dderbyn syniadau, cynigion, neu arian i'r Gronfa. Byddwn yn wir ddiolchgar am unrhyw gyfraniad.

Os na allwn fel ardal ymgymryd â'r her hon, yna mae'n debyg mai'r canlyniad fydd cau drysau Eglwys Crist am byth.



Mae gwaith celf
Rhiannon wedi sicrhau
Gwobr y Bobl iddi yn
Eisteddfod Amgen
2021

Gwobr Eisteddfodol arall i Rhiannon

Yn dilyn gwobr Prif Artist Eisteddfod yr Urdd yn gynharach eleni, mae Rhiannon Gwyn o Sling wedi ennill Gwobr y Bobl 'Y Lle Celf' yn Eisteddfod Genedlaethol Amgen 2021.

Er nad oedd Maes arferol eleni oherwydd y cyfyngiadau Covid-19, roedd trefnwyr y Brifwyl Amgen wedi gwahodd artistiaid o bob cwr o Gymru i gyflwyno eu gwaith ar gyfer arddangosfa'r Lle Celf.

Detholwyd y gweithiau i'w cynnwys yn yr arddangosfa ddigidol gan Gwenno Angharad, Aled Wyn Davies a Carwyn Evans.

Fel rhan o'i champ, mae Rhiannon yn sicrhau Gwobr Josef Herman. Mae'r gwaith buddugol yma hefyd yn adlewyrchu dylanwad Dyffryn Ogwen a'r chwareli gyda chyfuniad o lechi a serameg sydd wedi ei drin yn feistrolgar i ymddangos fel ton yn torri.

Llongyfarchiadau gwresog i Rhiannon ar ei llwyddiant eleni. Mae mwy o wybodaeth am ei gwaith celf ar ei gwefan, sef www.rhiannongwyn.com

Safle Treftadaeth Byd: Cynllunio i'r dyfodol

Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru, sy'n cynnwys Dyffryn Ogwen yw'r lleoliad diweddaraf yng Nghymru i ddod yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.

Mae'n dilyn Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a Chestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd.

Fel rhan o'r cais i sicrhau'r statws, amlygwyd y ffaith fod Dyffryn Ogwen ac ardaloedd llechi eraill Gwynedd ar flaen y gad o ran cynhyrchu ac allforio yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erbyn y 1890au, roedd y diwydiant llechi yng Nghymru yn cyflogi oddeutu 17,000 o weithwyr ac yn cynhyrchu bron i 500,000 tunnell o lechi'r flwyddyn, oddeutu traean o'r holl lechi toi a ddefnyddiwyd yn y byd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Gweddnewidiwyd tirwedd yr ardal ar raddfa enfawr gan ganrifoedd o fwyngloddio, ac mae'r arysgrif yn adlewyrchu'r rôl bwysig a chwaraeodd Dyffryn Ogwen a'r ardal yn 'rhoi to ar fyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg'.

Dwywedodd Dafydd Wigley, Cadeirydd Grŵp

Llywio Partneriaeth Llechi Cymru:

"Ar ôl cadeirio Grŵp Llywio Partneriaeth Llechi Cymru am dros 5 mlynedd, rwyf wrth fy modd gyda'r penderfyniad hwn gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd ac rwy'n croesawu ein harysgrifiad ar ran ein holl bartneriaid, tirfeddianwyr, cymunedau a busnesau.

"Mae partneriaid wedi gweithio'n ddiflino dros fwy na degawd i gyrraedd y garreg filltir bwysig hon, a bydd angen i ni nawr gryfhau ein cydweithrediad i sicrhau ein bod yn cyflawni dros bobl, cymunedau a busnesau'r ardaloedd llechi. Mae'r arysgrif hon yn ddathliad o Wynedd yn toi'r byd, ein hiaith unigryw, ein diwylliant a'n cymunedau a sut y gwnaethom allforio pobl, technoleg a llechi i bedair cornel y byd."

Wedi'r cyhoeddiad, mae Cyngor Gwynedd a'r amrywiol bartneriaid sydd wedi bod ynghlwm â sicrhau'r statws, wedi bwrw ymlaen i gynllunio'r camau nesaf er mwyn sicrhau'r budd gorau i gymunedau a busnesau Gwynedd i'r dyfodol.

"Dros y misoedd nesaf, bydd y Cyngor yn arwain ar sawl ymgynghoriad lle bydd yn gofyn i bobl a busnesau Gwynedd am eu blaenoriaethau i'r dyfodol," meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Economi a Chymuned.

"Byddwn hefyd yn cadarnhau trefniadau i fabwysiadu Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy i Wynedd sydd wedi ei selio ar Egwyddorion Twristiaeth Cynaliadwy Sefydliad Twristiaeth y Byd Unesco.

"Mae'r weledigaeth ddrafft yn canolbwyntio ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i'n cynllun economi ymweld i'r dyfodol gyda phwyslais arbennig ar ein hiaith, diwylliant a threftadaeth, amgylchedd gynaliadwy a sicrhau'r buddion mwyaf i gymunedau a busnesau Gwynedd."

Mae rhagor o wybodaeth am Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru ar gael ar www.llechi.cymru

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos



Mae Dyffryn Ogwen yn un o ardaloedd llechi Gwynedd sydd wedi sicrhau statws Treftadaeth y Byd UNESCO © Hawlfraint y Goron: CBHC)

UNESCO a Tirlun Hanesyddol Dyffryn Ogwen

gan Dr John Llywelyn Williams

Ac mae Bethesda bellach yn rhan o gynllun Safle Treftadaeth y Byd yn hobnobio gyda Phyramidiau'r Aifft, y Taj Mahal yn India a Chôr y Cewri yn Lloegr, i enwi ond dyrnaid o safleoedd byd-eang sydd ar restr dreftadaeth UNESCO!

Ond gyda'r dynodiad daw cyfrifoldeb, a chyfrifoldeb sydd efallai heb ei egluro'n llawn gan y rhai sydd wedi hyrwyddo, ac a fydd o hyn allan, yn gwarchod y cynllun. Does dim dwywaith fod hwn yn gam pwysig yn hanes ein bro, yn un i'w longyfarch a'i dderbyn yn wresog gan ei fod yn cynnig cyfleon arbennig i ddatblygiadau economaidd, amgylcheddol a diwylliannol os byddant yn cael eu datblygu'n

gynaliadwy a chymeradwy er budd ein cymdeithas yn lleol. Ond beth fydd ein cyfrifoldeb ni ym Methesda o fod yn rhan o'r cynllun hwn, a beth yn union sydd gan ein hardal i'w gynnig yn weladwy mewn dynodiad sydd mor uchelgeisiol ei bwyslais ar gadwraeth y safleoedd chwarelyddol a gwarchodaeth y tirlun hanesyddol? Ar un amser, yr oedd tirwedd Dyffryn Ogwen yn ddrych digymar i lafur ac ymroddiad y gorffennol. Nid hynny mo'r gwirionedd mwyach.

Pan sefydlwyd Parc Cenedlaethol Eryri ym mhum degau'r ganrif ddiwethaf gadawyd pob un o'r pentrefi chwarelyddol yn ynysoedd a oedd yn rhy frwnt i'w cynnwys o fewn tiriogaeth y Parc. A dyna eironi'r sefyllfa heddiw, sef mai'r ynysoedd 'brwnt' yw'r 'perlau' sydd i'w gwarchod dan y cynllun treftadaeth. Canlyniad hyn oedd creu agwedd gwbl ddibris at gadwraeth ein treftadaeth hanesyddol. Dechreuodd yr alanastr yn Nyffryn Ogwen pan aeth Chwarel y Penrhyn i ddwylo cwmni rhyngwladol, a dilynwyd hyn gan y cynllun i chwalu hen chwarel Pantdreiniog yng nghanol y pentref oherwydd peryglon y safle. Yn dra anffodus, bu i'r ddau drefniant greu agwedd o ddiffyg parch cyffredinol at ein treftadaeth hanesyddol, ac yn fwy anffodus fyth, cafwyd yr awdurdodau cadwraethol, sydd heddiw yn heidio, blith draflith, i warchod ein treftadaeth hanesyddol, yn hepiant cysgu megis wrth ddrws agored y stabal.

Chwarel y Penrhyn oedd gem bensaernïol holl chwareli gogledd Cymru, yn gyfanwaith cymesur, urddasol a naddwyd ris wrth ris i glogwyni'r Fronllwyd drwy lafur cenedlaethau o chwarelwyr. Ac yr oedd harddwch i'w ganfod yn nhrefnusrwydd y distryw. Diflannodd yr hen ogoniant pan bwrcaswyd y chwarel gan y cwmni barus rhyng-genedlaethol gan gychwyn cyfnod o ysbeilio'r gloddfa i ennill y geiniog olaf drwy ddistryw ffrwydrol direol. Yr oedd y chwarel yn hen ffasiwn ac angen ei moderneiddio, ond nid

drwy fandaleiddio ei gorffennol. Gyda chynllunio mwy hyderus gallesid fod wedi arbed rhannau mwyaf hanesyddol y gwaith i'w gwarchod yn gofodeiliau byw ar gyfer addysgu'r dyfodol.

A hanes tebyg sydd i gadwraeth pentref Bethesda - nid yr harddaf o bentrefi Cymru, ond un sydd ag iddo gymeriad unigryw. Amgylchiadau gwahanol wnaeth amddifadu'r pentref o'i dreftadaeth ddiwylliannol. Aethpwyd ati'n ddi-feind i chwalu 13 o gapeli'r fro, oll yn sefydliadau ysbrydol a diwylliannol ac yn gofgolofnau pwysig yn y tirlun hanesyddol. Paham y distryw heb ystyried dulliau mwy cynhwysol o gadwraeth gynaliadwy? A dyna hanes trist stryd fawr y pentref. Yr oedd i'r stryd fawr ei statws fel prif wythien fasnach y gymuned, tra ei bod hi hefyd yn enghraifft gyflawn, ddiddorol o bensaerniaeth y 19g. Penllwydni rhyffeddol oedd penderfyniad y gymuned yn y 1970au i wrthod adeiladu ffordd osgoi i'r pentref, gyda'r canlyniad fod yn agos i ddau gant a mwy o lorïau'r dydd yn tagu rhwydd ddefnydd ohoni heddiw gan danseilio ei masnach a'i phriodoldeb cymdeithasol. Ac yn yr un cywair di-feind aethpwyd ati i fylchu ei hundod pensaernïol i greu encil gymunedol yn Llys Dafydd lle mae trafndiaeth ddi-baid y dydd yn tarfu ar ei defnydd.

Nid ar chwarae bach y dewiswyd Dyffryn Ogwen i fod yn rhan o'r dynodiad, ond mae cymalau niferus yn clymu'r anrhydedd i ofynion UNESCO drwy ofalaeth corff World Heritage Watch. Ac os bydd y warchodaeth yn anaddas yng ngolwg y corff hwn gall hynny arwain at golli statws y dynodiad fel a ddigwyddodd yn ddiweddar yn hanes dinas Lerpwl. Mae gan hyn ei oblygiadau hirdymor bid sicr, er na ellir yn hawdd eu deall yn ieithwedd jargonistig-gymylog cyflwyniad y cynllun.

Yn Nyffryn Ogwen mae'r cynllun yn ddewisol iawn ei ffiniau a'i gynnwys - yn ganolog ynddo mae pentrefi Bethesda, Gerlan, Mynydd Llandygái a Llandygái, ac mae rhannau ochr dwyrain

y chwarel o'i fewn, fel mae tentaclau llwybrau rheilffordd y chwarel, Lôn Las Ogwen a Ffordd Telford i gysylltu â'r cei yn Abercegin. Yn y cyflwyniad, cyfeirir at effeithiolrwydd y system gynllunio i warchod y 'living urban areas' sydd, o ddarllen rhwng y llinellau, i gynnwys y traddodiadau diwylliannol ac arfer y bröydd o ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Nid cynllun i warchod iaith a diwylliant yw dynodiad Treftadaeth y Byd, ond, yn hytrach, ei brif amcan yw cadwraeth yr elfennau ffisegol sydd yn y tirlun - ynddo cofrestrir y safleoedd o bwys, adolygir fesurau i'w gwarchod o fewn Cynllun Rheoli Lleol, a sefydlir strategaeth fonitro i werthuso effeithiolrwydd y cynllun rheoli. Mae'n debyg yr ychwanegir at nifer y safleoedd cadwraethol a disgwyli'r prosesau cynllunio warchod holl werthoedd y dreftadaeth. Yn ogystal, sefydlir strategaethau i hybu twristiaid i fynychu 'eiddo' y dynodiad. Gellir barnu, o ddarllen rhwng llinellau'r argymhellion, y cyflwynir llwyth ychwanegol o fiwrocratiaeth ar gefn ein cymdeithas.

Prif wers Dyffryn Ogwen i'w dysgu i UNESCO yw pa fodd y tanseiliwyd gwarchodaeth treftadaeth hanesyddol ein bro drwy fynnu budrelw, drwy gamweinyddu, drwy ddiffyg cynllunio strategol, drwy arweiniad diffygiol a bwnglera ymhlith y cyrrf a oedd i wybod, ac a ddylai fod wedi gweithredu'n well. Gyda chymaint o drwynau yn dal yn y cafn, a ellir disgwyl llawer gwell gan yr amryfal asiantaethau a sefydliadau statudol sydd i warchod dyfodol ein treftadaeth frau, ein tirlun hanesyddol, ein hiaith a'n diwylliant, dan gynllun mawreddog UNESCO? Amser a ddengys pa frwdfrydedd fydd gan y gwas newydd o gofio ei bod yn haws sefydlu na gweithredu pob gwarchodaeth.

(Gellir darllen adroddiad mwy cynhwysfawr o'r nodyn hwn ar wefan [hanesdyffrynogwen.wordpress.com](https://www.hanesdyffrynogwen.wordpress.com))



Tir Dewi – clust i wrando



Mae ‘na lawer o ffermwyr a’u teuluoedd allan yna sy’n brwydro i ymdopi â’r pwysau a ddaw o redeg fferm.

Nôl yn 2015, yn dilyn sgwrs rhwng y cyn Esgob Wyn a’r Hybarch Eileen Davies MBE, Archddiacon Ceredigion, mi ddaeth y ddau i’r ddealltwriaeth nad oedd digon o gefnogaeth ar gael i ffermwyr.

Felly sefydlodd Eileen, (sydd hefyd yn rhedeg fferm ddefaid a godro gyda’i theulu) yr elusen, Tir Dewi. Dechreuodd fel elusen fechan yn cynnig cefnogaeth i bob ffermwr yn y tair sir yng ngorllewin Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, estynnwyd y gefnogaeth honno i’r gogledd, Powys a Phenrhyn Gŵyr.

Hyd yn hyn, mae gwirfoddolwyr Tir Dewi wedi helpu dros 300 o deuluoedd gydag amrywiaeth o faterion, problemau, gofidiau, heriau ac y mae’r nifer yn codi yn ddyddiol. Mae Tir Dewi yn cynnig llinell gymorth gyfrinachol am ddim gyda’r dewis o drafod gyda rhywun yn Gymraeg neu Saesneg, 7 diwrnod yr wythnos o 7yb tan 10yh. Mae cymorth wyneb yn wyneb hefyd ar gael.

Mae pawb yn ymwybodol fod gweithio ym myd amaeth yn gallu bod yn ofnadwy o anodd. Gall fod yn unig, gyda phwysau gwaith aruthrol, ac mae’r ffermwr yn aml yn gorfod cario’r pwysau hwnnw i gyd heb neb i’w rannu.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae mwy a mwy o waith papur ynghlwm wrth amaethyddiaeth, mae rheolau yn newid yn gyson, mae gofidiau wedi cynyddu ac mewn nifer o achosion mae’r help a’r gwmniaeth oedd yn nodweddiadol o gymunedau amaethyddol wedi lleihau yn aruthrol.

Pwrpas Tir Dewi yw i fod yna i gynnal a chefnogi ffermwyr a’u teuluoedd drwy

unrhyw adeg anodd sy’n dod ar eu traws. Yn cynnig clust i wrando, helpu gyda phethau ymarferol fel gwaith papur neu alwadau ffôn, neu gyfeirio at fudiadau sy’n arbenigio yn y broblem benodol sy’n eich poeni chi.

Mae tua 60 o wirfoddolwyr dros Gymru, ac mae pob un yn deall ffermwyr, ac yn cydymdeimlo gyda’r problemau sy’n eu hwynebu. Mae pob un ohonynt wir eisiau helpu i leddfu ychydig ar y gofid a’r pwysau mae gymaint o ffermwyr yn ei deimlo, a hynny bob amser yn hollol gyfrinachol.

Nid oes y fath beth ag “annual”, “sick” neu “compassionate leave” i’w gael i ffermwyr, mae’n rhaid iddyn nhw barhau. *Ond oes rhaid? Neu gallech chi ofyn am help, help a allai esmwytho peth o’r boen, y baich neu’r pwysau, gan adael i chi gael amser i feddwl, blaenoriaethu a theimlo eich bod yn cael eich cynnal?*

Y mae tîm o wirfoddolwyr caredig, llawn empathi yn Tir Dewi yn barod i wrando a’ch cefnogi beth bynnag a rannwch. Felly galwch 0800 121 47 22 am gymorth cyfrinachol am ddim.

Hefyd, os oes diddordeb gennych, mae Tir Dewi wastad yn chwilio am wirfoddolwyr i ymgymryd â gwahanol roliau o fewn yr elusen, felly cysylltwch i glywed mwy.

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i’r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459)
henbarc13@gmail.com

Dymunwn yn dda i Keilly Tugwel Williams (Lôn Groes) yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar, hefyd Gillian Griffith (Llanllechid) wedi ei damwain car.

Llongyfarchwn bawb o’r ardal sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau ysgol a choleg yn ddiweddar.

Cafwyd cwynion fod camperfanau a cherbydau mawrion, nad ydynt yn cael eu defnyddio’n ddyddiol wedi eu parcio o amgylch Cae Chwarae Talysarn (Rachub) yn ddiweddar, o ystyried fod prinder lle i barcio ceir yn y pentref.

Dymunwn ymddeoliad hapus i Mrs Marian Jones (Ffordd Coedmor) ar ôl blynyddoedd o waith gwerthfawr a llwyddiannus yn Ysgol Llanllechid.

Llongyfarchwn Jean a Godfrey Northam (Llwyn Bedw) am eu pen-blwydd priodas deiamwnt ar ddiwedd mis Awst a’u merch (Tegwen) sydd wedi dechrau swydd newydd efo tyrbeini gwynt yn Ramsgate, Swydd Gaint.

Cafodd Cwt Pren Oes Haearn arall ei ddarganfod yng Nghae Rhosydd yn ystod gwyliau’r haf.

Diolchwn i gynghorwyr yr ardal am iddynt lwyddo i gael gwelliant sylweddol i’r ffordd o Gapel Carmel i Sgwâr Rachub, ac ail wynebu ffordd Maes Bledwyn yn llwyr.

Mae oedfaon pob pythefnos yng Nghapel Carmel (Rachub) wedi ail-ddechrau am 3 y.p. ar Fedi’r 5ed, gydag oedfaon pob pythefnos yn ei chwaer eglwys (Capel Bethlehem, Talybont) yn ail ddechrau am 2 y.p. ar Fedi’r 12fed.

Cydymdeimlwn â theulu John Jones, Ffordd Tanybwllch a fu farw yn ddiweddar, a diolchwn iddo am ei waith diflino yn gwerthu Llais Ogwan bob mis am flynyddoedd lawer.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Phyllis Davies (Cae Ifan Gymro), a chydymdeimlwn a’r teulu oll.

Hoffai Jean o Faes Bledwyn ddolch o galon i bawb a gofiodd amdani wrth iddi ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Owen’s Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk



Cynllun tai yn codi stêm

Mae gwaith yn bwrw ymlaen yn dda ar y cynllun tai fforddiadwy ar hen safle gorsaf reilffordd ym Methesda, gyda disgwyl i'r gwaith adeiladu ddod i derfyn erbyn Mawrth 2022.

Bydd y datblygiad sydd werth £2.5 miliwn, yn cynnwys wyth tŷ dwy ystafell wely, pum byngalo dwy ystafell wely, tri thŷ tair ystafell wely ac un tŷ pedair ystafell wely.

Y bwriad ydi gosod yr 17 eiddo fel tai cymdeithasol, gyda'r datblygiad sydd wedi ei ariannu'n rhannol trwy grant Llywodraeth Cymru yn bartneriaeth rhwng Grŵp Cynefin a Chyngor Gwynedd.

“Mae gwir angen tai ar gyfer teuluoedd a chyplau o amgylch Bethesda, felly rydym yn falch o allu cynorthwyo'r rhai sy'n gobeithio parhau i fyw yn yr ardal ond sydd wedi cael trafferth dod o hyd i dai addas a fforddiadwy yn y gorffennol,” meddai rheolwr datblygu Grŵp Cynefin, Gwyndaf Williams

“Mae'n braf gallu datblygu'r eiddo newydd ar un o'r safleoedd cyfarfod pwysicaf yn y dref ar un cyfnod ac rydym yn bwriadu anrhydeddu cymaint o dreftadaeth yr hen orsaf ag sy'n bosib.

“Rydyn ni'n gobeithio y bydd trigolion y cartrefi newydd yn gwreiddio fel rhan o'u cymuned leol diolch i'r lleoliad canolog sy'n agos at drafnidiaeth gyhoeddus reolaidd,



Llun diweddar o'r safle

caeau hamdden a llwybr beicio'r Lôn Las.”

Ychwanegodd Prif Weithredwr Grŵp Cynefin, Shân Lloyd Williams: “Mae'r datblygiad ym Methesda yn ffordd wych o arddangos sut rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r gymuned leol ac awdurdodau lleol i leihau'r pwysau ar y farchnad tai fforddiadwy yng Ngwynedd.

“Mae cynlluniau fel hyn yn hanfodol i sicrhau llewyrch cymunedau a gall cyplau iau, teuluoedd, ac unigolion hŷn ddod o hyd i gartrefi yn yr ardaloedd lle maen nhw'n gyfforddus ac yn gyfarwydd â nhw, gan osgoi cael eu prisio allan o'r ardal yn gyfan gwbl.

“Rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu tenantiaid newydd i'w cartrefi newydd cyn gynted ag y bydd y gwaith wedi ei gwblhau.”



Darlun argraffiadol o sut bydd y safle'n edrych

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd taith gerdded flynyddol y gangen ar ddechrau Gorffennaf o Fethesda i Gaffi Moel-yci ar hyd y trac seiclo, gan godi swm parchus at etholiadau sirol a lleol y flwyddyn nesaf

Yn ddiweddarach yn y mis, cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol Etholaeth Arfon a'r gangen ar ZOOM, gan ail-ethol y swyddogion a'r cynrychiolwyr yn y ddau achos. Yng nghyfarfod Arfon, daeth Carolyn Thomas, Aelod Llafur Senedd Cymru dros ranbarth y gogledd i annerch yr aelodau, gyda digon o gyfle iddynt ofyn cwestiynau a mynegi barn.

Cynhelir cyfarfodydd deufisol pob-aelod yr etholaeth ar yr ail nos Fercher ym mis Medi a'r gangen ar y drydedd nos Fercher.

Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
600633
(symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

post@llaisogwan.com



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

Llongyfarchion

Llongyfarchiadau, Garneddwen, i Lleucu Bryn ar gyrraedd ei deunaw oed ddiwedd Gorffennaf. Gobeithio i ti fwynhau’r dathlu gyda dy deulu a’th ffrindiau yn Aberdaron. Hefyd ar dy lwyddiant arbennig yn derbyn graddau 2A* a 2A mewn Mathemateg, Cemeg, Cerdd a’r BAC yn dy Lefel A. Mae Lleucu a’i bryd ar astudio Pensaernïaeth yn y brifysgol, ond am dreulio blwyddyn yn gyntaf yn dilyn Celf Sylfaen yng Ngholeg Menai.



Llongyfarchiadau hefyd i’w chwaer Anest Bryn ar lwyddo yn ei arholiad piano Gradd 6 gyda Choleg Trinitï dros yr haf. Cafodd Hannah Jones, Erw Las, dri achos i ddathlu yn ddiweddar. Ym mis Mehefin dathlodd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed a hefyd wedi hir ymaros am ei phrawf gyrru oherwydd yr amgylchiadau bu’n llwyddiannus ar ei chynnig cyntaf. Ac i goroni’r cyfan cafodd lwyddiant yn ei lefel A sy’n ei galluogi i ddilyn cwrs coleg o’i dewis. Llongyfarchiadau mawr Hannah a phob dymuniad da i ti.

Ar y Radio

Ar Raglen Dewi Llwyd ar 2 Awst, braf oedd gwrando ar sgwrs gan fam a merch o’r Dyffryn, sef Menai Williams a Lowri Roberts. Hefyd, yn ystod yr wythnos cafwyd sgwrs gyda Dr. Nia Williams.

Penblwydd Priodas Arbennig

Ar 8 Awst dathlodd Derek a Norma Griffith, Abercaseg, 60 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chwi.

Ysbyty

Yn ystod yr haf mae sawl un o’r dyffryn wedi bod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth. Anfonwn

ein cofion atoch, ac at y rhai ohonoch sy’n sâl gartref, sef: John Cooney, Glan Ffrydlas; Joan Parry, Abercaseg; Ian Edwards, Maes Coetmor; Philip Williams, Penybryn; Sulwen Lloyd, Maes y Garnedd; Alan Puw, Cefn y Bryn.

Priodas

Ar ddydd Llun olaf o fis Gorffennaf priodwyd Carwyn Lloyd Williams ac Elin Mai Roberts, y ddau o Erw Las. Mae Carwyn yn fab i Cemlyn a Lilian Williams ac Elin yn ferch i John a Gwenllian Roberts. Cynhaliwyd y briodas a’r dathliadau yn Neuadd Sychdyn. Pob dymuniad da i’r ddau sydd wedi ymgartrefu yn Rhes Mostyn, Bethesda.

Diolch

Dymuna Cylch Meithrin Cefnfaes ddiolch i gyn-reolwraig y Royal Oak, Alison Jones a’i chwsmeriaid am eu rhodd o £80. Dymunwn yn dda i Alison yn y dyfodol wedi iddi benderfynu tynnu ei pheint olaf yn y Royal.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Myrddyn a Gwen Hughes, sydd bellach yn byw yn Llanfairfechan, ond gynt o Garneddi ar ddathlu eu priodas aur ym mis Awst.

Penblwydd

Llongyfarchiadau i Lena Henry, Erw Las a ddathlodd ben-blwydd arbennig ym mis Awst.

Cydymdeimlo

Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ystod yr haf, ac ‘rydym yn anfon ein cydymdeimlad atoch i gyd: June a Peter Griffiths a’r teulu, Erw Las. Collodd June ei thad ar 5 Gorffennaf, sef y diweddar John Jones, Tan y Bwlch, Rachub. ‘Roedd yn dad a thaid annwyl i’r teulu.

Cydymdeimlwn â theulu’r ddiweddar Caryl Anne Williams, Bangor, a fu farw ar 29 Mehefin, sef mam Elen Williams a’r teulu, Glanogwen, a’i chymar, Dave, a’r plant, Natasha, Sophie ac Aaron.

Tom a Gwen Griffiths, a’r teulu, Ffordd Ffrydlas. Collodd Gwen ei chwaer, Phyllis Davies, Cae Ifan Gymro, yn 86 mlwydd oed.

Emyr a Heulwen Roberts, Ffordd Bangor, a’r teulu, yn eu profedigaeth o golli modryb annwyl i Emyr yn Abergynolwyn ar 30 Gorffennaf, sef Mrs. Elizabeth Lewis (Beti) yn 86 mlwydd oed.

Marwolaethau

Mr. William Morris
Yn ysbyty Broadgreen, Lerpwl, ar 4 Awst, bu farw William Morris (Wili Bun), Stâd Coetmor, yn 54 mlwydd oed. Cymar annwyl i Julie a thad caredig ac annwyl i Elin, Catrin a Llinos.

‘Roedd yn fab i’r diweddar Mr. a Mrs. Eifion Morris, ac yn frawd hoffus i’r ddiweddar Linda. Bu’n gweithio fel gyrrwr tacsï am flynyddoedd cyn ei salwch. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mawrth, 7 Awst, gyda gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, Rachub. Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu.

Mrs. Margaret Owen

Yn dawel yn ei chartref ar 9 Awst, yn 101 mlwydd oed, bu farw Mrs. Margaret Owen, Bryn Meurig. Priod annwyl y diweddar Mr. Owen Elias Owen a mam Rhodri, Mair, Eluned, Sioned a Dafydd. ‘Roedd yn fam yng nghyfraith, nain a hen nain hoffus, ac yn fodryb annwyl. Cynhaliwyd ei hangladd, i’r teulu, yn Amlogsgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu yn eich profedigaeth.

Caffi Coed y Brenin

Dymuna’r Caffi ddiolch i Catherine a June, merched y diweddar Mr. John Jones, Tan y Bwlch, Llanllechid, am y rhodd a dderbyniwyd ganddynt er cof am eu tad. Wedi dwy flynedd ar hugain mae Karen Aston, yn ei geiriau ei hun wedi penderfynu cadw’r ffedog, a dydd Gwener Awst 27ain oedd ei diwrnod olaf. Diolch i ti Karen am dy holl wasanaeth a dy wên bob amser. Hefyd am y gwasanaeth o baratoi bwyd ar gyfer nifer o achlysuron eraill yn y gymuned. Bydd colled fawr ar dy ôl, a phob hwyl i ti.

Tafarn Tryfan

Mae’n debyg i chi sylwi ar arwydd newydd Tafarn Tryfan ar adeilad Y Llangollen ar y Stryd Fawr yn ddiweddar. Oherwydd yr amgylchiadau dyma’r drydydd tro i Dewi Llewelyn a Dewi Fôn agor a sefydlu busnes newydd ers mis Tachwedd 2019. Felly pob lwc iddynt yn eu menter yn agor busnes newydd ar ei liwt eu hunain yn eu hardal. Mae Dewi mor falch o weld print o lun a beintwyd gan ei dad, y diweddar Richard Jones, Erw Las yn amlwg ar y Stryd Fawr.

Ymddeoliad

Cyfnod o ymlacio sy’n wynebu Marian Jones, Ffordd Coedmor fis Medi yma gan iddi ymddeol o’i gwaith fel athrawes yn Ysgol Llanllechid. Dechreuodd fel athrawes yn Ysgol Morfa Rhiannedd, Llandudno yn 1979 gan aros yno tan iddi ddod i Lanllechid yn 1998. Dymunwn yn dda iddi ar ei hymddeoliad. Dyma Englyn gan Dilwyn Owen, Erw Las sy’n crynhoi cyfraniad Marian i addysg y plant i’r dim:

Marian

Athrawes a hanesydd,– hon rwydodd Gymeriadau’n bröydd
Mewn sgetsiau a sioeau sydd
Yn minio pob ymennydd.

Yr Eglwys Unedig

Gwyliau'r Haf

Bellach mae gwyliau'r haf wedi dod i ben, a'r ysgolion wedi ail agor. Dymunwn bob llwyddiant i'r rhai sydd yn dechrau ar eu taith addysgol, ac ar yr un pryd, llongyfarchwn y rhai sydd wedi llwyddo yn yr 'arholiadau' TGAU a Lefel A. Bu'n flwyddyn a mwy rhyfeddol o anodd iddynt, a gobeithiwn yr ânt ymlaen yn hyderus i'r dyfodol.

Profedigaeth

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Emyr Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar o golli modryb i Emyr, sef chwaer ei fam, yn Abergynolwyn.

Ymweliad

Hyfryd oedd cael croesawu Andrea Greaney a'r teulu i ymweld â'r capel yn ystod yr wythnosau diwethaf yma. Mae Andrea yn ferch i Catherine a'r diweddar Gwynfor Jones (teulu Bryn Cul) - y ddau ohonynt wedi bod yn aelodau gwerthfawr o'r eglwys. Cafodd

Andrea gyfle i dywys ei mam o gwmpas yr adeiladau, a dwyn i gof atgofion melyn o'r hen amser. 'Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i Andrea am ei rhodd anrhydeddus i goffrau'r capel.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb ohonoch sydd yn dioddef o anhwylder - boed hynny yn eich cartref, mewn cartref preswyl, neu ysbty.

Bedydd

Mewn gwasanaeth arbennig fore Sul, Awst 22, bedyddiwyd Gwion Martin Hughes Roberts, sef mab bychan Vicky Hughes a Gerallt Roberts. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Y Parchedig Geraint Roberts. Dymunwn bob bendith i chwi, deulu bach.

Gwasanaethau

Edrychwn ymlaen at ail-afael yn ein gweithgareddau arferol yn y dyfodol agos, gan obeithio y bydd y pandemig yn

cilio. Yn y cyfamser, dyma'r cyhoeddiadau ar gyfer y Suliau sydd i ddod, - pob un yn y Capel ac ar y ffôn:

Medi 19: Gwasanaeth Teuluol (10)
Y Parchedig Robert Capon (5)
Medi 26: Mr. Owain Davies (10)
Hydref 3: Y Parchedig Megan Williams (5)
Hydref 10: Y Parchedig D Rees Roberts (10)
Croeso cynnes i bawb ohonoch.

Ac fel y symudwn o dymor yr haf i dymor yr hydref, dyma benillion o waith WJ Gruffydd sydd yn disgrifio Duw fel creawdwr a chynhaliwr:

Dwed yr haf â'i fwyn diriondeb Am ogoniant mawr yr lôr, Mae hyfrydwch yn y mynydd, Mae cyfaredd yn y môr.

Gwelir Duw yn lliwiau'r hydref Pan aeddfedo'r cnwd a'r grawn, Mae ei roddion yn y berllan, Mae ei wyrth mewn sgubor lawn.

Eglwys Crist, Glanogwen

Gwasanaethau

Bellach mae'r patrwm am wasanaethau wedi ei sefydlu i gael Gwasanaeth Cymun ar y 3ydd Sul o'r mis, a gwasanaeth pob Bore Mercher am 10.30, gyda chyfle i gael sgwrs ar ôl, ac fel arfer mae croeso cynnes i bawb i ymuno. Byddwn yn dal i dderbyn rhoddion at y Banc Bwyd - bob amser yn cael croeso.

Atgyweirio

Mae Cronfa Atgyweirio Glanogwen wedi ei sefydlu bellach, gan ddechrau'r ymgyrch codi arian er mwyn gwneud yr holl waith sydd ei angen ar yr adeilad. Camodd Clare Morrison i'r bwlch yn syth, gan godi dros £300 i'r gronfa trwy drefnu gweithgareddau ar-lein yn ystod mis Gorffennaf. Diolch o galon, Clare - mae'n fendith meddwl fod rhywun lleol yn fodlon estyn llaw. Mae safle GoFundMe wedi ei sefydlu ar gyfer cyfrannu'n uniongyrchol. Gellir fynd iddo trwy chwilio am GoFundMe, yna rhoi 'Glanogwen' yn y bwlch 'Search' a dilyn y cyfarwyddiadau. Mae

nifer wedi sylwi bod y ddwy fynwent - Glanogwen a Choetmor - yn araf ddod i drefn. Mae'n diolch yn fawr i Arwel Roberts ac Ian Hughes am y gwaith caled sy'n mynd ymlaen yn gyson i gael trefn ar y tyfiant, a byddai o fudd mawr i gael help llaw dros y misoedd nesaf. Os oes rhywun yn awyddus i ddod ymlaen, rhowch ganiad i Ian ar 600931 er mwyn trefnu dyddiad cyfleus - braf fyddai cael criw at ei gilydd. Fel arfer, anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb yn yr ardal sydd yn unig neu'n sâl yn eu cartref neu'r ysbty, gan ddymuno gwellhad buan a chysur i bawb.

Manylion Cyswllt

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno, ar 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas neu fedydd. Cofiwch fod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffon os am gael sgwrs.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Collodd y Capel aelod ffyddlon pan fu farw Emyr Williams, Gwern Gof Isaf, ar 29 Mehefin. 'Roedd yn fab i'r diweddar William a Gwen Williams, a brawd hoffus i Dafydd a Liz, a Dilys a'r ddiweddar Gwyneth. 'Roedd yn ewythr i Sean, Louise, Dylan, Debbie, Diane, Sue a Henry.

Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel Nant y Benglog a mynwent Cae Melwr, Llanrwst. Mr. Trystan Lewis oedd yn arwain y gwasanaeth.

Cydymdeimlwn â chwi fel teulu ac aelodau'r capel yn eich colled.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr a Mrs Elfed Jackson a'r teulu, Braich Tŷ Du, yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl yn ystod yr haf.

Pentir
Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

Noddi tuag at achos da

Mae perthynas i Jen Dafydd wedi cael diagnosis o glefyd Niwronau Motor. Ar benwythnos yn ystod yr haf, trefnodd yr elusen Matoron Cymru weithgaredd codi arian oedd yn dipyn o sialens. Roedd y cefnogwyr i ddringo rhai o gopaon enwocaf Cymru sef, Yr Wyddfa, Cader Idris a Phen y Fan. Dringodd Wesyn (mab Jen ac Einion) y tri ynghyd a reidio beic rhwng bob un. Gan fod Einion yn brysur gyda'i waith ar y pryd, ymunodd gyda'r criw i gerdded Cader Idris.

Bu i'r ymgyrch godi dros £61,000 tuag at gronfa'r elusen.

A hoffech chi gael hysbyseb yn y papur?



Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern,
14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda,
LL57 3TY. (01248 601526)



Gwobr Arbennig

‘Roedd James Aldridge yn arloeswyr ym maes caws artisan ym Mhrydain. Bob blwyddyn, bydd tlws coffa, er cof amdano, yn cael ei roi i’r gwneuthurwr caws llaeth amrwd Prydeinig gorau. Eleni, daeth y tlws coffa i Gerlan wrth i Carrie Rimes, Gwernydd, gipio’r wobwr am ei chaws arbennig Brefu Bach. Os nad ydych wedi ei flasu eto, cerwch i chwilio amdano’n lleol – mae’n fendigedig! Llongyfarchiadau mawr iti Carrie – da ni’n falch iawn ohonot am roi Bethesda ar y map unwaith eto.

Cerddoriaeth newydd

Deffro’r Llwyd: Rhwng yr Hen Ganiadau a’r Nodau Newydd

Yn Eisteddfod Amgen eleni comisiynwyd Patrick Rimes i gyfansoddi darn newydd o waith cerddorol arbennig. Mae’r gwaith yn cael ei ddisgrifio fel un sy’n “plethu cerddoriaeth pumawd offerynnol a phedwarawd lleisiol o gyn-enillwyr y Rhuban Glas gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC dan arweiniad Michael Seal.” Mae’r geiriau gan Beth Celyn. Os

ewch chi draw i wefan yr Eisteddfod, gallwch wyllo’r perfformiad gyda Patrick yn rhoi cyflwyniad byr o’i waith “cyfres o bortreadau / delweddau fel mewn arddangosfa gyda cherddorfa yn cynnig cefndir i’r cyd-destun sydd yn dod a phopeth at ei gilydd fel un (neu rhywbeth fel yna!!)” Llongyfarchiadau mawr iti Patrick am greu campwaith! Gallwch wrando arno trwy fynd i <https://eisteddfod.wales/amgen-2021-iau-encore-concerto>

Croeso adref

Ar y 18fed o Ebrill eleni daeth Nel-Rhys i’r byd yn llawer rhy fuan. Mae wedi treulio ei misoedd cyntaf yn yr ysbyty, ond da ni’n falch iawn o weld ei bod wedi cael dod adref i hen Siop Gerlan at mam a dad, Lliwen a Dylan, a’i brawd mawr Ben. Croeso adref Nel fach.

Ymddeoliad hapus

Dymunwn y gorau i Edwina Griffith ar ei hymddeoliad o Ysgol Abercaseg. Mae Anti Edwina wedi bod yn gweithio yno ers sawl blwyddyn a hefyd wedi gweithio yn Ysgol Pen y Bryn cyn hynny. Mae ei gwasanaeth i’r ddwy ysgol a’r holl blant sydd wedi pasio drwy’r drysau wedi bod yn amhrisiadwy a bydd colled fawr ar ei hôl dwi’n siŵr. Amser rhoi traed i fyny rŵan am ‘chydig!

Diolch

Dymunai Edwina Griffith, Rallt Isaf ddiolch o waelod calon i Bennaeth a staff Ysgol Abercaseg. Hefyd Corff Llywodraethol, Rhieni a Phlant yr Ysgol a phawb arall yn y gymuned am yr anrhegion a’r cardiau ar ei hymddeoliad diweddar.

Dathlu Dwbl

Bu dathlu mawr yn Nhŷ Dŵr yn ddiweddar wrth i Mari a Iago Davies raddio. Graddiodd Mari o Brifysgol Caerdydd. Mae hi wedi dechrau ei swydd gyntaf fel meddyg yn Ysbyty Nevill Hall ac yn byw yng Nghaerdydd. Graddiodd Iago o Brifysgol Loughborough efo gradd mewn Gwyddoniaeth Chwaraeon a Rheolaeth. Enillodd wobwr am y Traethawd Hir gorau a oedd yn trafod effaith Covid ar Lais Ieuenticid mewn Addysg Gorfforol yn rhyngwladol. Mae o wedi cychwyn swydd yng Ngholeg Brighton yn hyfforddi rygbi a dysgu Addysg Gorfforol.



Mari Davies sydd bellach yn gweithio fel meddyg a **Iago Davies** yn derbyn ei radd o Brifysgol Loughborough



Cafodd Iago gyfle i chwarae rhywfaint o rygbi 7 pob ochr dros yr haf hefyd gan gynnwys ennill twrnament yr Heart of Wales 7s gyda Thîm Y Wailers.

‘Rydym wrth ein bodd yn clywed am lwyddiant y ddau ohonoch ac yn dymuno’n dda i chi wrth ichi ddechrau pennod newydd yn eich bywyd.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Simon Dignam Stryd y Ffynnon sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar. Gobeithio dy fod yn cryfhau Simon



Perfformio yng Nghaeredin

Llongyfarchiadau i Lisa Jên Brown Gwernydd a fu’n perfformio ei drama “Double Drop” yng Nghaeredin dechrau mis Awst yng Ngŵyl y fringe yno. ‘Roedd Lisa wedi ysgrifennu’r ddrama radio llynedd ac fe addasodd o i’r llwyfan eleni. Cafodd hi a Mirain Haf Roberts hwyl yn ei berfformio i gynulleidfaoedd yng Nghaeredin a derbyn sawl adolygiad gwych am y cynhyrchiad bywiog a difyr.

Cafodd Gwenno Hodgkins ddamwain yn ddiweddar a thorri ei braich. Gobeithio y bydd yn gwella'n fuan iti Gwenno.

Penblwydd hapus

Dymuniadau pen-blwydd hwyr i Gwenda Bowen, Stryd Hir, oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn yr haf yma. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnod a'r dathlu Gwenda.

Diolch

Dymuna Gwenda Bowen, Stryd Hir, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar.

Ymddeoliad

Ar ôl 33 mlynedd fel gofalydd cartref, mae Helen Williams Ciltwillan wedi penderfynu ymddeol. Mae Helen wedi gweithio'n ddiflino yn y swydd arbennig yma ac wedi bod yn gefn ac yn gymorth i sawl unigolyn a'u teuluoedd. Mae'r ardal yn ddiolchgar iawn iti am dy ymroddiad a dy waith caled Helen a bydd chwith mawr ar dy ôl yn y gwaith. Gobeithio cei di foddhad yn treulio mwy o amser efo'r teulu ac yn mwynhau dy hun. Pob dymuniad da iti Helen.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Callum O'Marah a Sasha Rowlands Tŷ Bach Twt, Ffordd Gerlan ar eu dyweddïad diweddar. Mae'r teulu i gyd yn dymuno'n dda i chi ac yn edrych ymlaen at

y briodas yn Eglwys Glanogwen ar y 27ain o Dachwedd. Pob lwc i chi efo'r trefnu dros y misoedd nesaf.

Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Elin Cain Roberts sydd wedi cael swydd yn adran marchnata Theatr Genedlaethol Cymru yng Nghaerfyrddin. Mae'r teulu yn falch iawn ohonat a nain (Linda Brown) wrth ei bodd dy fod yn dilyn yn ôl ei throed yn y theatr!

Oriel Lockdown

Un sydd wedi bod yn hynod brysur yn ystod y cyfnod clo ydi Rebecca Hardy-Griffiths. Un o'r cynlluniau mae hi wedi bod yn rhan ohono ydi Arddangosfa Oriel Lockdown yng Nghanolfan Gelf Aberystwyth sydd wedi bod ymlaen dros yr haf.

Roedd yr arddangosfa yn dathlu'r rhan werthfawr a chwaraewyd gan y celfyddydau dros gyfnod y pandemig. Gyda'r rhan fwyaf ohonom yn cael ein cyfyngu i'n tai a'n milltir sgwâr, fe sylwon ar y cyfryngau cymdeithasol fod nifer fawr o bobl, gan gynnwys artistiaid amatur a phroffesiynol, yn troi at gelf a chreadigrwydd i'n helpu ni trwy'r cyfnod anodd yma.

Derbyniwyd dros 1,000 o geisiadau ar Instagram a thrwy e-bost. Treuliodd Anthony Shapland, curadur oriel g39 yng Nghaerdydd, a Ffion Rhys, curadur yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, amser maith yn trafod sut i ddewis gwaith i'w arddangos ar ôl



Rebecca yn paratoi'r arddangosfa yn Aberystwyth

derbyn gymaint o geisiadau. Da ni'n falch iawn o weld bod gwaith Rebecca wedi ei ddewis a'i arddangos yn Aberystwyth.

Cafodd Rebecca hefyd wahoddiad gan Ffion Rhys ac Anthony Shapland i greu darn gwreiddiol ar gyfer y ffenest yn Oriel 2, Canolfan Celf Aberystwyth. Mae Rebecca yn wir ddiolchgar iddynt am y siawns i greu darn newydd o gelf ac i weld ei syniadau yn dod yn fyw o ddarlun mewn llyfr braslun o adeg y clo. Mae'r ymateb i'r darn wedi bod yn anhygoel.

Gellir gweld mwy o waith Rebecca ar wefan www.rebeccahardy.com ac ar gyfrif instagram @_rebeccahardy

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

**Ogwen**
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein
☎ 07743373895 ✉ Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

**SGAFFALDIAU Cyf.**
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk



Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

Gair neu ddau - John Pritchard

Trwy'r rhedyn

Doedden ni ddim ar goll. Mi wyddem yn iawn i ba gyfeiriad yr oeddem yn mynd (neu'n ceisio mynd) iddo. Ond am ryw reswm roeddem wedi colli golwg ar y llwybr. Doedd hynny ddim o bwys mawr: roedd yn bnawn heulog braf a'r unig beryg oedd cael cam gwag a thraed gwlyb yn y tir corslyd. Doedd dim amdani ond mentro'n ofalus trwy ddwy neu dair llath o glawdd rhedyn trwchus. Nid ei bod fawr o fenter wrth gwrs, ond roedd angen gofal rhag camu i dwll anweledig neu dir anwastad yng nghanol y rhedyn. Embaras fyddai troi troed a gorfod ymbalfalu i lawr y llethr. Heb anffawd, a heb ormod o ddifrod i'r rhedyn gobeithio,

daethpwyd trwyddo ac ar unwaith ailddarganfod y llwybr. Embaras mwy oedd sylweddoli bod - lai nag ugain llath oddi wrthym - fwllch yn y clawdd a llwybr dirwyrstr trwy'r rhedyn. Roedd y llwybr o fewn taflad carreg i ni, a phe byddem wedi dringo'r llethr y mymryn lleiaf mi fyddem wedi ei ganfod. Ie, pe byddem wedi codi'n llygaid mi fyddem wedi ei weld. Heb yn wybod i lawer mae'r llwybr at Dduw mor syml, a rhywsut mor hynod o agos. Yn eu hymchwil am Dduw, bydd pobl yn aml yn chwilio ym mhob cyfeiriad: troi at wahanol grefyddau, ymchwilio i amrywiol athroniaethau, dilyn pob math o

syniadau hen a newydd, darllen yn eang am brofiadau a dysgeidiaeth arweinwyr crefyddol o bedwar ban byd, plymio i ddyfnder eu calonnau a'u heneidiau eu hunain wrth geisio goleuni ac ystyr i'w bywyd. I lawer, ymholiad parhaus, ymdrech ddiddiwedd a thaith annelwig yw'r bywyd crefyddol ac ysbrydol, a'r hiraeth am ystyr a bodlonrwydd a gobaith yn aml iawn yn aros heb ei ddiwallu na'i fodloni. Ac nid rhyfedd hynny os nad Iesu Grist yw canolbwynt y cyfan gan mai'r Iesu hwn yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Iesu Grist ei hun yw'r llwybr at Dduw gan mai Mab Duw ydyw: Duw wedi dod atom mewn dyn. CREDU yn Iesu Grist yw credu yn Nuw; adnabod Iesu Grist yw adnabod Duw; dod at Iesu yw dod at Dduw.

Mae'r ateb yn glir a'r cyfan o fewn cyrraedd. Nid yw'n gymhleth o gwbl. Nid yw'r bywyd sydd gan Dduw ar ein cyfer - y bywyd o'i adnabod Ef a'i brofi yn nerth ac yn gynhafiaeth - y tu hwnt i'n cyrraedd. Nid rhywbeth ar gyfer pobl ofnadwy o grefyddol neu ysbrydol ydyw; nid eiddo'r bobl sy'n gwybod mwy na'r cyffredin am y Beibl a'i gynnwys ydyw. Mae'r bywyd hwn ar gyfer pwy bynnag a ddaw at Iesu Grist. Ac felly, rhown heibio bob ymbalfalu trwy redyn dryswch a thywyllwch ac anwybodaeth a chodi'n golwg at neges glir a diamwys yr Efengyl mai Iesu Grist, Mab Duw, yw'r ffordd a roddwyd i gymod â Duw, i lawenydd, i obaith ac i'r bywyd tragwyddol na all neb na dim ei ddwyn oddi arnom.

Ydych chi eisiau arafu neu cymryd cam yn ôl o'r diwydiant a darparu cyfle i newydd ddyfodiad?

Beth am ystyried menter ar y cyd?

Mae cynllun Mentro wedi ei ddylunio i baru ffermwyr ifanc gyda ffermwyr hŷn sy'n cychwyn meddwl am gamu yn ôl o ffermio'n llawn amser, ond sydd heb olynydd naturiol mewn lle ar hyn o bryd.

Trwy weithio'n agos gyda'r ddwy ochor rydym yn eu cefnogi i sefydlu menter ffermio ar y cyd, sy'n galluogi i'r ffermwr hŷn barhau i fod â rhan yn y busnes, tra'n rhoi cyfle i'r ffermwr ifanc ennill profiad a datblygu sgiliau.

Mae'r cynllun yn cynnig gwasanaeth paru, er mwyn darganfod partner busnes addas ac yn arwain y ddwy ochor drwy'r holl gamau, gan gynnwys cynllunio busnes a chyngor cyfreithiol, er mwyn teilwra strwythur addas sy'n diwallu anghenion y ddwy ochor.

Mae hefyd modd defnyddio cynllun Mentro i recriwtio staff.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

Mae sefydlu menter ar y cyd hefyd yn gallu cynnig datrysiad ar gyfer teuluoedd fferm sydd ag olynydd amlwg, ond aelodau eraill o'r teulu megis brodyr a chwiorydd â diddordeb yn yr asedau hefyd. Mae modd llunio'r fenter i roi cyfle i'r ffermwr ifanc adeiladu capital dros amser, fyddai'n eu rhoi mewn sefyllfa gryfach i ddod i gytundeb ariannol gyda'r brodyr neu chwiorydd eraill yn y dyfodol.

Os ydych yn meddwl y gallai Mentro fod yn ateb i chi, ond bod angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â **Gwydion Owen**, eich Swyddog Mentro lleol i gael sgwrs anffurfiol i drafod eich sefyllfa.

Ffôn: 07498 055 416
Ebost: gwydion.owen@menterabusnes.co.uk





Cynllun Aroddioedd Ewrop ar gyfer Bwllwyr Gwledig
Europe's Rural Development Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



mentro
venture

Elusen Ogwen yn dyrannu ei grantiau cyntaf

Amcan Elusen Ogwen yw dosbarthu cyllid gan Ynni Ogwen i gefnogi cynlluniau fydd yn gwella ansawdd bywyd pobl Dyffryn Ogwen. Mae'r Elusen yn falch o ddatgan ei bod wedi dyrannu ei grant cyntaf a bod grantiau eraill ar y ffordd yn fuan iawn i brosiectau lleol eraill!

Bydd Ymddiriedolaeth Wiwerod Coch Cymru yn derbyn cyllid ar gyfer Prosiect Bele'r Coed yn Nyffryn Ogwen. Mae beladod y coed yn cyfrannu at reoli poblogaeth y wiwer lwyd ac mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi rhyddhau beladod y coed yn ardal Dyffryn Ogwen gyda'r bwriad hwnnw; prosiect sy'n torri tir newydd yn Ewrop.

Gyda'r grant bydd yr Ymddiriedolaeth yn prynu camerâu bywyd gwyllt y bydd modd eu benthyca i aelodau'r gymuned er mwyn monitro symudiadau'r beladod yn yr ardal. Y bwriad drwy wneud hyn yw cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd fel y bo pobl yn dod i adnabod bywyd gwyllt yr ardal yn well.

Bydd modd gweld symudiadau anifeiliaid

eraill megis gwiwerod coch, llwynogod a ffwlbartiaid yn ogystal gan gyfrannu at ein gwybodaeth am symudiadau mamaliaid yn Nyffryn Ogwen. Bydd modd rhannu'r delweddau ar y cyfryngau cymdeithasol fel y bo eraill yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn dod yn gyfarwydd â bywyd gwyllt yr ardal.

I ddysgu rhagor am Brosiect Bele'r Coed ac i fynegi diddordeb mewn gwirfoddoli

ewch i wefan pinemarten.net.

Rydym yn ddiolchgar i Ynni Ogwen am ddarparu cyllid i Elusen Ogwen ac rydym yn edrych ymlaen at gyhoeddi grantiau eraill i brosiectau lleol yn fuan iawn. Yn y cyfamser hoffem annog grwpiau cymunedol eraill yn y Dyffryn i ymgeisio am gyllid erbyn y dyddiad cau nesaf ar 30 Medi 2021.

I gael rhagor o wybodaeth a ffurflenni ymgeisio ewch i <https://www.ogwen.cymru/cy/prosiectau-cymunedol/elusen-ogwen/>

Cofiwch y gallwch chi gysylltu efo ni i drafod eich syniadau ymlaen llaw drwy anfon e-bost i elusenogwen@gmail.com - gallwn eich rhoi mewn cysylltiad â mudiadau eraill

all eich helpu i fireinio eich syniadau yn ogystal.

Gall yr Elusen gefnogi prosiectau cyfalaf a refeniw sy'n cwrdd â'r amcanion canlynol:

- Lleihau tlodi tanwydd a chymdeithasol
- Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy
- Hybu trafndiaeth gynaliadwy a theithio actif
- Arbed ynni
- Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd
- Lleihau gwastraff
- Annog unigolion i wirfoddoli mewn prosiectau amgylcheddol yn eu cymunedau
- Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
- Cynyddu cynhyrchu / prynu cynnyrch bwyd lleol.



Chris Allen o Ymddiriedolaeth Wiwerod Coch Cymru (ail o'r dde) yn derbyn sicc gan Nigel Beidas, Lowri Williams, Arwyn Oliver a Caren Brown o Elusen Ogwen gyda chymorth Griff Morris o Ynni Ogwen.



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafydddownen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinaltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

 @CynghorwyrDyffrynOgwen  @PlaidCymruOgwen

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



constructionline



NICEIC
CONTRACTORS
CYMRAGWYOL



ECA
Cymuned y gwasanaethau parhau
wyddonol a gwasanaethau adeiladu



CHAS
Cymuned y gwasanaethau parhau
wyddonol a gwasanaethau adeiladu

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
(600853)
Barbara Jones, 1 Dol Helyg,
Talybont (353500)

Coff  d i Bethan Griffiths

Ganwyd hi ar y 18fed o Ragfyr, 1934, yn Bronwerydd, Dyffryn Ardudwy. Roedd yn ferch ofalgar i'r diweddar Iorwerth ac Etta Humphreys, ac yn chwaer i'r diweddar Mair. Roedd yn wraig ffyddlon i'r diweddar Eifion, yn llysfam i David a Carol ac yn fodryb garedig i Gwyneth ac Erddyn, a'u teuluoedd, a Iorwerth a Hywel. Roedd yn wraig arbennig, yn hynod o garedig, siriol ac annibynnol a oedd wrth ei bodd yng nghwmni pobl ac yn arbennig yng nghwmni plant.

Mynychodd yr ysgol gynradd yn Dyffryn ac yna Ysgol Ramadeg Y Bermo cyn dilyn gyrfa fel nyrs. Hyfforddodd yn Ysbyty Frenhinol Caer. Yn 1953 symudodd i Ysbyty Dewi Sant, Bangor, gan hyfforddi i fod yn fydwrraig ac yn ddiweddarach daeth yn Swyddog Nyrsio uchel ei pharch. Yn dilyn ei marwolaeth cysylltodd sawl cydweithiwr a merched a roddodd enedigaeth yn Ysbyty Dewi Sant, i rannu eu hatgofion ohoni gydag aelodau'r teulu. Mynnai bod y nyrsys yn cadw at y safonau uchel roedd hi'n eu gosod. Dros y blynyddoedd cynorthwyodd gyda genedigaeth cannoedd os nad miloedd o fabanod. Roedd albwm ganddi yn llawn o luniau babanod a dderbyniodd gan rieni diolchgar dros y blynyddoedd.

Arwydd o'i charedigrwydd tuag at ei chyd-weithwyr oedd y byddai'n dewis gweithio bob



dydd Nadolig er mwyn i'r nyrsys, a oedd yn famau, gael treulio'r Dolig gyda'u plant. Os oedd unrhyw aelod o'r teulu neu rhywun o ardal Dyffryn yn yr ysbyty byddai ei chwaer neu Agnes, ei ffrind ers dyddiau ysgol, yn ei ffonio a byddai'n si  r o ymweld    hwy.

Yn 1973 priododd ag Eifion ac ymgartrefu ym Mro Emrys, Talybont, Bangor. Daeth yn aelod selog o Eglwys Sant Cross a byddai'n cefnogi digwyddiadau yng nghapel Bethlehem. Bu farw Eifion yng Ngorffennaf 2002. Ei ffordd hi o ddelio gyda'r golled oedd i gadw'n brysur a bod yn gefn i eraill.

Erbyn i Ysbyty Dewi Sant gau yn 1993 / 94, roedd wedi gweithio yno am ddeugain mlynedd. Penderfynodd na fyddai'n symud i Ysbyty Gwynedd - ond nid dyna ddiwedd ei chysylltiad gyda'r Gwasanaeth Iechyd. Wedi ymddeol, gwirfoddolodd gyda'r WRVS yn Ysbyty Gwynedd, a bu hefyd yn gwirfoddoli yn y siop yn Y Gadeirlan.

Roedd yn hoff iawn o gerddoriaeth a bu'n aelod o G  r Traeth Lafan. Byddai'n mwynhau mynd i gyngherddau ac ar deithiau gyda'r c  r ac o gael hwylyng nghwmni'r aelodau.

Tua thair blynedd yn   l dechreuodd ei hiechyd ddirywio ond roedd yn benderfynol o barhau i fyw adref. Bu'r cyfnodau clo yn anodd iddi ond gyda chefnogaeth aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion a gofalwyr llwyddodd i barhau i fyw adref tan chwe wythnos olaf ei hoes. Bu farw ar Awst 13ddeg, yn Ysbyty Eryri.

Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Sant Cross, dan arweiniad Yr Hybarch Mary Stallard, Arch-ddiacon Bangor. Chwaraeodd sawl person ifanc ran yn y gwasanaeth - Huw Erddyn, darlleniad, Ll  r Davies ac Elen Jones, unawdau, gyda theyrngedau gan Rhun Davies a Beca Jones.

Dymuna'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad ac am y rhoddion sylweddol a gasglwyd tuag at T   Gobaith. (Coff  d gan Erddyn Davies).

Colledion

Mae'r haf yn prysur ddirwyn i ben, gan adael Talybont yn dlotach lle o lawer. Yng nghanol y mis



Capel Bethlehem

Bydd ein hoedfaon yn ail-gychwyn am 2 o'r gloch brynhawn Sul, 12 Medi yng nghwmni'n gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Gobeithiwn gynnal oedfa bob pŵawn Sul o hynny ymlaen. Dyma lun o'r Capel yn dilyn y gwaith o drwsio a phaentio dros yr haf. Diolch i Mr. Gareth Hughes a Mr. John Roberts, Bethesda am eu gwaith rhagorol.

diwethaf, o fewn wythnos union i'w gilydd, cipiwyd dau ffrind annwyl iawn o'n plith.

Ar Awst 6ed, yn frawychus o sydyn, bu farw Victor Lloyd Jones, 24 Bro Emrys.

Un o'r bobl dawel rheiny sy'n gwneud gwahaniaeth mawr yn ei gymuned oedd Vic. Trydanwr ydoedd wrth ei alwedigaeth; un oedd yn barod bob amser i roi help llaw i rywun mewn trybini trydanol, boed yn broblem fach neu fawr. Wedi iddo ymddeol, os gwnaeth o byth, tueddai i ganolbwytio ar y tasgau llai. Roedd hynny'n fendith amhrisiadwy i ni, y to h  n. Dim ond i chi godi'r ff  n, neu ddigwydd taro arno yn y pentref ac, mewn dim o amser, byddai Vic wrth y drws,    gw  n dawel ar ei wyneb, yn barod i ddatrys unrhyw ddirgelwch trydanol a fodolai ar y pryd. Doedd rhyfedd bod pawb mor hoff ohono!

Ond os ydym ni, drigolion Talybont, yn mynd i weld ei golli, gymaint yn fwy yw'r golled ar ei aelwyd. Estynnwn gydymdeimlad yr ardal gyfan atoch, Morfydd a Jackie a'r teulu oll yn eich galar. Gwyddom mor ofalus oedd Vic o'i deulu, a chymaint o feddwl oedd gan y plantos o'u taid. Mae'n gadael bwlch enfawr ar ei   l.

Cynhaliwyd angladd Vic ar ddydd Sadwrn, Awst 21ain, yn Amlogfa Bangor.

Ar Awst 13, yn dawel yn Ysbyty Eryri, hunodd yr annwyl Sister Bethan Griffiths, 'Ardudwy', 62. Bro Emrys, yn 86 mlwydd oed.

Bydd pobl lawer iawn fwy cymwys na fi yn rhoi teyrngedau i Bethan. Yr oedd yn Swyddog Nyrsio uchel iawn ei pharch, a chanddi ddylanwad mewn llawer o feysydd. Ond rydym ni, bobl Talybont, yn ei chofio, pan yn gweithio, yn rhoi o'i hamser prin i alw heibio efo gair o gysur i ambell un oedd yn poeni am berthynas yn yr ysbyty; neu'n codi hyder mam newydd yn pryderu bod ei babi ddim yn dod yn ei flaen fel y disgwyliid. Meddai ar y gallu i godi gw  n ar wyneb y mwyaf poenus ohonom, a'n sicrhau ein bod ar y trywydd iawn. Mae presenoldeb cymeriad unigryw fel Bethan yn y gymuned yn gaffaeliad anhygoel.

Er bod y cof yn dechrau pallu, gyda chymorth ei theulu a gofalwyr, cafodd aros yn ei chartref tan yr wythnosau olaf; wedi'i hamgylchynu gan gymdogion caredig oedd    meddwl mawr ohoni.

Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol yn Eglwys St. Cross ar Awst 23ain, a rhoddwyd hi i orffwys yn y fynwent.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Erddyn, Gwenith a'r cysylltiadau teuluol oll ar amser mor drist yn eu hanes.

Mae nifer o deuluoedd eraill wedi dioddef colledion ers i Lais Ogwan weld golau dydd y tro diwethaf.

Yn eu plith mae Rita a Hughie Hughes, 7 Lôn Ddŵr. Bu farw Bet o Abergynolwyn, chwaer Rita, yn Ysbyty Tywyn ar ddiwedd mis Gorffennaf.

Collodd Arnold Williams, 8 Cae Gwigin, ei dad, Merfyn, o Faesgeirchen ym mis Mehefin, a bu farw taid Nia , 3 Cae Gwigin, sef John Jones o Danybwllch, Rachub, ar ddechrau mis Gorffennaf.

Collodd Sandra Jones, 13 Dolhelig, ei ewythr, Stephen Evans ar ddiwedd y mis diwethaf.

I bawb sydd mewn profedigaeth, estynnwn gydymdeimlad dwysaf atoch oll yn eich hiraeth.

Gwellhad buan

Treuliodd Bill Morrell, 4 Dolhelig, ychydig o ddyddiau yn Ysbyty Gwynedd yn ystod mis Awst. Mae o’n dechrau dod ato’i hun erbyn hyn, a gobeithio na fydd yn hir nes y bydd wedi gwella’n llwyr.

Cyfarchion pen-blwydd

Dathlodd Liz Pritchard, Glan Bethlehem, ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Pob bendith iti, Liz, a hir oes i fwynhau’r wyrion a wyresau yr wyt mor ofalus ohonynt.

Babi newydd

Pleser bob amser yw croesawu babi bach newydd i’n plith. Ganwyd Valencia Grace Louise Turner ar Awst 7ed i Abbie a’i chymar, Taylor. Mae hyn yn gwneud Tammy, 28 Cae Gwigin, yn nain unwaith eto. Daeth Valencia i’r byd chwe wythnos yn gynnar ac, eisoes, mae hi wedi gorfod wynebu triniaethau cymhleth iawn. ‘Fydd yr wythnosau nesaf ddim yn hawdd. Mae’r teulu yn edrych ymlaen at ei chael adref o Alder Hey cyn gynted ag y bo modd. Pob bendith arnat, Valencia bach, ac arnoch i gyd fel teulu.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gethin, Aberogwen, ar basio ei brawf gyrru yn ddiweddar; y pumed aelod o’r teulu i ddal trwydded lawn. Mae’n dda bod digon o le ar y fferm i bawb gael parcio! Dymunwn flynyddoedd lawer o yrru’n ddiogel iti, Gethin.

Hefyd, llongyfarchwn Matthew Parry, 17 Dolhelig ar basio Lefelau 2 a 3 mewn Gwyddor Chwaraeon yng Ngholeg Menai. Bydd yn cychwyn ar gwrs gradd ym Mhrifysgol Bangor ar ddechrau’r tymor newydd. Dai awn chdi, Matthew. Dalia ati !

Gair o groeso

Croeso i 36 Bro Emrys (tŷ Rhian Haf a’r genod gynt) i Rhydian a Miriam o Chwillog. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn Nhalybont. Efallai y cawn gwrdd mewn Noson Goffi neu Ffair yn y capel cyn bo hir. Mae’n fisoedd lawer ers inni gael cymdeithasu, a phobl y pentref yn dechrau mynd yn ddieithr iawn i’w gilydd.

Estynnwn groeso’r un mor gynnes i’r teulu Davies sydd wedi ymgartrefu yn rhif 4 Bro Emrys. Gobeithio y cawn gyfle i’w hadnabod yn fuan.

Tymor newydd

Ar ddechrau blwyddyn academiaidd newydd, anfonwn ddymuniadau gorau i’n plant a phobl ifainc ym mha bynnag ysgol, coleg neu safle gwaith y byddant yn mynychu. Gobeithio’n wir y caiff pawb flwyddyn iach, lwyddiannus a di-rwystr y tro hwn.

Ar yr un pryd, gawn ni apelio’n daer am newyddion o Dalybont ? Plŷs ?

Mae cymaint o bethau diddorol wedi digwydd, yn enwedig ymysg yr ieuenctid, a ninnau heb glywed amdanynt nes mae’n rhy hwyr. Papur i bawb yn y Dyffryn ydi ‘Llais Ogwan’. Mae’n haeddu’ch cefnogaeth. Diolch o galon am bob cyfraniad.

Eglwys St Cross

Profedigaeth

Mrs Bethan Griffiths, 62 Bro Emrys Roedd y newyddion trist fod Bethan wedi marw ar 13eg o Awst yn annisgwyl er iddi fod yn Ysbyty Gwynedd ac wedyn Ysbyty Eryri am ryw chwe wythnos. Fel teulu eglwys a chymuned Tal-y-bont, estynnwn ein cydymdeimlad i’w theulu hi, yn enwedig ei nai, Erddyn Davies (mab ei diweddar chwaer, Mair), a oedd yn gefn iddi hi ers i’w hiechyd ddechrau dirywio dwy neu dair blynedd yn ôl.

Dynes annwyl a charedig, ac eto yn breifat ac annibynnol, roedd Bethan yn barod ei chymwynas bob amser, a phan oedd hi’n wael, fe gafodd hi, yn ei thro, gymwynasau gan ei chymdogion a ffrindiau.

Cynhaliwyd ei chynhebrwng ar Awst 23ain, ac mi fuasai Eglwys St Cross wedi bod yn orlawn oni bai am gyfyngiadau Covid. Sut bynnag, llwyddodd cynulleidfa deilwng ddod trwy’r drws - teulu, ffrindiau, cyn-gydweithwyr, gofawyr - efo llawer mwy yn sefyll y tu allan yn y fynwent. Archddiacon Mary Stallard arweiniodd y gwasanaeth, Geraint Gill oedd wrth yr organ, ond yn lle canu cynulleidfaol, gwnaeth

Llŷr Davies, gor-nai Bethan, ganu’r emyn cyntaf, ‘Pan fwyf yn teimlo’n unig lawer awr’, ar y dôn Ellers; canodd Elen Jones, a oedd yn byw am flynyddoedd dros y ffordd i Bethan, unawd - ‘Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun’; ac yn olaf, recordiad Côr y Penrhyn o ‘Arglwydd, gad i’m dawel orffwys’ ar y dôn Arwelfa. Traddododd Rhun Davies (gor-nai) y deyrnged ar ran y teulu, darllenodd Huw Erddyn (gor-nai) Salm 121, a gwnaeth Beca, chwaer Elen, roi teyrnged hefyd. Dymuniad Bethan oedd cael pobl ifanc i gymryd rhan yn y gwasanaeth, ac ‘roedd hi ei hun wedi dewis yr emynau o flaen llaw - dynes drefnus iawn! Rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent St Cross gyda’i diweddar ŵr, Eifion. Chwith ar ei hôl, ond atgofion melys amdani hi. Diolchwn oll am ei bywyd a’i hesiampl.

(Gweler hefyd coffâd gan Erddyn)

Gwasanaethau:

Sul 1af yn y mis:11 a.m. - Cymun Bendigaid
3ydd Sul: 10 a.m. - Boreol Weddi Medi 26ain: 11 a.m. - Diolchgarwch

GWERSI PIANO

- Tiwtor cyfeillgar, amyneddgar, cymwysedig a chyda 40 mlynedd o brofiad hyfforddi.
- Prisiau rhesymol, a thalu ar gychwyn bob gwers, nid am wythnosau ymlaen llaw.
- Ni chodir tâl am absenoldeb oherwydd salwch.
- Rhiant neu ofalydd cyfrifol yn bresennol ym mhob gwers.
- Anogir bob disgybl i sefyll arholiadau’r Associated Board neu fwrdd arholi arall o ddewis y rhiant.
- Cynhelir gwersi trwy gydol y flwyddyn (yn cynnwys rhai gwyliau ysgol). Caniateir gwyliau ar amser arall trwy drefniant ymlaen llaw.
- Croesewir ail-ddechreuwyd hŷn (arholiadau’n ddewisol).

Cysylltwch â: Gerwyn Llwyd, FVCM, LWCMD, ar Bethesda 01248 602901



post@llaisogwan.com

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Catherine Williams a’r teulu, bu farw ei thad, John Jones yn 83 mlwydd oed. Adnabuwyd ef fel John Tan Marchlyn a’r teulu yn hanu o’r ardal yno. Roedd yr angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor a rhoddion er cof tuag at Gaffi Coed y Brenin. Roedd yn daid ac yn hen daid ac fe fydd Gareth a Gethin yn ei golli’n arw.

Yn yr un modd fe gydymdeimlwn â Mrs Myra Jones, Bron y Waun, bu farw ei chfyneither, Mrs Margaret Hughes yn 101 oed. Yn wreiddiol o Ty Rhos, Bethel ond wedi ymgartrefu ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Bu’r gwasanaeth yng Nghapel, Cysegr, Bethel, gyda’r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu.

Yn ystod yr haf bu farw un a fagwyd yn Rhiwlas ond a symudodd i Feirionnydd. Yn dawel yn Ysbyty Tywyn ar y 30ain o Orffennaf bu farw Elisabeth Lewis (Beti) yn 86 mlwydd oed. Roedd yn wraig i Ifor ac wedi ymgartrefu yn Abergynolwyn ers dros 40 mlynedd. Yn wreiddiol o Ty’n Llidiart, Mynydd Bach. Rhiwlas, yn ferch i Arthur ac Annie Evans a chwaer i John, Rita, Geraint a’r diweddar Sylvia ac Iris. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn y cartref, Dydd Gwener, Awst 6ed a rhoddwyd i orffwys ym mynwent Llanfihangel y Pennant. Cydymdeimlwn â chi fel teulu.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ceri Fflur Griffith, fferm Castell, am raddio gyda dosbarth cyntaf mewn Cymraeg a Hanes ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob hwyl i ti yn y dyfodol.

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

TEMPLE MORRIS A’I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Hyfforddiant peiriant ‘Diffib’

Nos Iau, 19 Awst, cafodd trigolion Rhiwlas gyfle i ymuno mewn sesiynau hyfforddiant er mwyn dysgu sut i ddefnyddio peiriant Diffib. Mae dau beiriant yn Rhiwlas – un yng Nghiosg Bro Rhiwen, a’r llall ger stad Cae Glas.

Cynhaliwyd yr hyfforddiant yn Neuadd Bentref Rhiwlas.

Grŵp ‘Diffib Rhiwlas’ oedd yn gyfrifol am drefnu’r noson gyda Thrysorydd y grŵp, Dr Hannah Lock, yn arwain y sesiynau. Roedd y sesiynau yn dysgu sgiliau hanfodol ar gyfer ceisio achub bywyd yn dilyn ataliad ar y galon. Diolch yn fawr iawn i Dr Hannah Lock am arwain sesiynau hynod addysgiadol, ac i griw ‘Diffib Rhiwlas’ am y gwaith trefnu.

Diolch hefyd i ‘Gyfeillion Rhiwlas’ am ddarparu lluniaeth ar y noson, ac i drigolion y pentref am gefnogi’r digwyddiad.

Gobeithir trefnu hyfforddiant eto yn y gaeaf.



Y mae Morgan Huw, Bryn Seiriol wedi derbyn gradd Bsc, cyfrifiadureg a thechnoleg yw ei faes ac mae’n gweithio i Gyngor Conwy. Llongyfarchiadau i tithau hefyd Morgan.

Heno Aur, S4C

Rhaglen yw hon yn dangos rhaglenni o’r gorffennol ac mae’n hynod o ddifyr. Yn ddiweddar, cawsom weld eitem o’r archif yn ymwneud ag Ysgol Rhiwlas. Mae’n debyg fod y plant yn gwneud cywaith ar sbwriel. Roedd y ferch â’r gwallt cyrliog yn poeni fod papurau a hen amlenni yn cael eu taflu ar y llawr wrth y Post yn Rhiwlas. Poeni roedd y bachgen penfelyn am stad Bron y Waun. Roedd y ddau am gael biniau o amgylch y pentref. Pwy oedd y ddau a beth yw eu hanes heddiw? Manon Steffan Ros oedd y ferch ac yn adnabyddus fel awdures lwyddiannus iawn ac wedi ennill lluo wobrwyon cenedlaethol. Y bachgen oedd Owain Arthur sy’n adnabyddus iawn fel actor, wedi bod mewn sawl cyfres ar y teledu yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ar lwyfannau yn Llundain. Yn ddiweddar mae wedi bod yn Seland Newydd

yn ffilmio cyfres ‘Lord of the Rings’. Gobeithio y caiff y ddau gyfle i weld y rhaglen a hel atgofion am eu plentynod.

Teithio a chneifio

Y mae Gerallt Jones, mab Elwyn a Margaret a gŵr Rhian wedi mynd i’r Malvinas i gneifio, mae wedi bod yno sawl gwaith. Y tro yma fe fydd yno am ddeufis, dipyn o gneifio yn sicr. Anodd credu fod bron i ddeugain mlynedd ers yr helynt am berchnogaeth y Malvinas.

Eisteddfod amgen

Cefais flas ar yr arlwy a gawsom ar y teledu ac ar Radio Cymru. Braf oedd gweld y prif seremonïau a pherson ifanc yn cael y profiad o gyd-feirniadu gyda’r beirniaid profiadol. Beirniad ifanc arall oedd Elli Mai a oedd y beirniadu Cerdd Dant.

Brysiwch wella

Mae sawl un o’r pentref wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, cofion atoch ac at eraill sydd heb fod yn rhy dda.

Statws Treftadaeth Byd Unesco

Tua phymtheng mlynedd yn ôl y daeth y syniad i gael statws arbennig i ardaloedd y llechi. Roedd Dr David Gwyn yn flaenllaw yn yr ymgais yma. Roedd llechi o Ogledd Orllewin Cymru yn gorchuddio tai ar draws y byd. Wedi clywed y newyddion roedd cryn drafod ar y radio a’r teledu. Braf oedd clywed Cadi Iolen, sy’n Uwch Guradur yn yr Amgueddfa Lechi yn trafod y statws newydd yma i ardaloedd y llechi.

Dychwelyd

Y Mis Medi fe fydd plant a myfyrwyr yn dychwelyd i’r ysgol a choleg. Mae cyfnod y Cofid wedi bod yn un heriol ac yn ddigynsail. Pob hwyl i chi yn y tymor nesaf gan obeithio na fydd rhwystrau yn y flwyddyn ysgol yma.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor,
Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw,
Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll
(gwendaglyn@hotmail.com)

Dathlu

Llongyfarchiadau i Olwen a Tudor Jones, Fferm Coed Hywel ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar Orffennaf 25ain.
Llongyfarchiadau mawr hefyd i’w mhab Dewi a Ffion, Ffordd Tanrhiw, ar enedigaeth Caio Dafydd ym mis Gorffennaf, brawd bach i Gruff. Treuliodd Caio ychydig o amser yn yr uned gofal arbennig ond mae bellach adref gyda’r teulu sy’n aros dros dro efo nain a thaid yng Nghoed Hywel. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu, gan gynnwys hen nain Coed Hywel, sef Mrs Rhianwen Jones.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i bawb o bobol ifanc y pentre’ sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau eleni a hynny dan amgylchiadau eithriadol o anodd. Da iawn chi i gyd a phob dymuniad da i’r dyfodol boed hynny mewn ysgol, coleg neu waith. Ardderchog!

Mewn Ysbyty

Gwyddom fod amryw ohonoch wedi bod yn wael yn ddiweddar ac wedi cael amser anodd a hynny yn eich cartrefi neu mewn ysbytai. Bu’n amser pryderus i bawb ond cofiwch fod angen parhau i fod yn ofalus iawn a ninnau yn wynebu’r hydref a’r gaeaf.
Bu Olga Davies, Yr Hen Berllan, Dob, yn Ysbyty Gwynedd ym Mis Gorffennaf ond mae adre erbyn hyn. Gwellhad buan a llwyr Olga.

Profedigaeth

Ddiwedd mis Gorffennaf, bu farw Lily Aelwen Richrdson, gynt o Ffordd Tanrhiw, yn 93 mlwydd oed. Roedd yn briod gyda’r diweddar Norman ac yn fam i Eric, Sheila, Kevin a’r diweddar Keith ac yn nain a hen nain annwyl. Bu’r angladd yn Amlosgfa Bangor ar Awst 3. Estynnwn ein cydymdeimlad gyda chi i gyd fel teulu.
Daeth y newyddion trist ar Awst 26 am farwolaeth Hughie Harris Hughes (Hugh Peintiwr) yn Ysbyty Eryri, Caernarfon yn 76 oed ac o 2 Pen y Bronydd. Anfonwn ein cofion a’n cydymdeimlad at ei wraig Helena a’i blant Tecwyn a Lynne, Delyth a Robin a’i wyrion Sion a Carly, Sioned, Dion a’r diweddar Rhys, a’i or-wyrion Rhiannon, Elliw, Cai, Megan, Osian, Guto, Daniel a Mary-Anne a’r holl deulu. Bu’r angladd yng Nghapel Shiloh, Tregarth, Dydd Iau, Medi 2 ac yna ym Mynwent Coetmor.

Llais o Ganada

Ar raglen Geraint Lloyd ar Radio Cymru ym Mis Gorffennaf cafwyd cyfle i glywed llais un

o hogia Tregarth, sef Gwydion Temple Morris a arferai fyw gyda’i frawd Llŷr a’i rieni Martin a Siân yn Hen Dyrpeg, Tregarth. Symudodd y teulu i fyw i Ganada rai blynyddoedd yn ôl bellach ac maent wedi cartrefu yn Halifax, Nova Scotia. Erbyn hyn mae Gwydion yn gweithio yn y byd cyfryngau ac yn sgwennu a pharatoi ffilmiau o bob math. Braf iawn oedd ei glywed yn siarad am ei waith a hynny mewn Cymraeg ardderchog. Gwych Gwydion. Byddai’n dda cael mwy o’i hanes ar gyfer darllenwyr Llais Ogwan. Roedd Nain Gwydion, sef Eirwen Owen, Erw Las, a’r holl deulu wrth eu bodd o glywed am ei lwyddiant. Cofiw’n i Gwydion a’i frawd Llŷr fod yn aelodau ffyddlon yn Ysgol Sul Shiloh ac yn cymryd rhan yn raenus yn y Gwasanaethau Teulu. Cofion atoch yng Nghanada.

Canolfan Tregarth

Mae’r Ganolfan wedi agor ei drysau unwaith eto wedi deunaw mis hir ac anodd. Felly cofiwch os oes unrhyw gymdeithas yn barod i ddod yn ôl, neu gymdeithas neu sefydliad arall angen gofod, yna rhwch wybod. Mae’r ganolfan ar gael hefyd i bartïon fel ac yr oedd o’r blaen. Cysylltwch ag Angharad ar 01248 601544.

Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Canolfan Gymunedol Tregarth ar 22 Medi am 6.30pm. Bydd y nifer wedi eu cyfyngu i 20 o bobl. Mae’r pwyllgor yn gofyn i unrhyw un sy’n bwriadu mynychu i wisgo mwgwd a’u bod wedi derbyn dau frechiad Covid-19.

Dathlu priodas aur

Pob dymuniad da i Gwenda a Glyn, gynt o Dal y Cae sydd wedi cyrraedd carreg filltir ac wedi dathlu Priodas Aur ym Mis Gorffennaf. Priodwyd y ddau yng Nghapel Moriah, Llanbedr, yn Ardudwy ar Orffennaf 17, 1971, sef 17/7/71 ! Erbyn hyn, maent yn byw ym Mhorthaethwy, er hynny mae Gwenda yn dal i gyfrannu i’r Llais. Anfonwn ein cofion atynt gan obeithio y bydd iechyd Glyn yn gwella, wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Penblwydd Arbennig

Dathlodd Aled Williams, Bro Syr Ifor ei benblwydd yn 70 fis Awst. Mae pawb yn adnabod Aled gan ei fod yn ddyn mor brysur ac wedi gwirfoddoli gydag Ambiwlans Sant Ioan ac yn y caffï yn Ysbyty Gwynedd am amser. Penblwydd Hapus iawn i ti Aled.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Newyddion Gwych!
Mae’r gangen wedi ail-agor yn Nhregarth, Nos Lun, Medi 6, yng Nghapel Shiloh am 7.30 ac nid yn y festri fel cynt. Bydd y nosweithiau dilynol ar y Dydd Llun cyntaf o bob mis ac eithrio Mis Ionawr. Dowch draw i fwynhau sgysiau a nosweithiau amrywiol iawn. Mae’r gangen yn un gref a chroeso cynnes iawn i bawb a hoffai ymuno.

Capel Shiloh, Tregarth

Gwasanaethau

Mae’r gwasanaethau wedi ail-gychwyn yn Shiloh, ers Dydd Sul, Medi 5 am 5 o’r gloch. Croeso cynnes i bawb ddod i’r oedfaon.

Medi 19 - Philip Barnett
Medi 26 - Gwyndaf Jones
Hydref 3 - Richard Gillion
Hydref 10 - Philip Barnett
Hydref 17 - Gwasanaeth Teulu y Diolchgarwch
Hydref 18 - (Nos Lun) Gwasanaeth Diolchgarwch am 6 o’r gloch
Hydref 24 - Richard O Jones
Hydref 31 - Ffion Rowlinson

Braf iawn fydd cael cydaddoli unwaith eto ers gwyliau’r haf. Byddwn yn parhau i wisgo masgiau yn yr oedfaon ac yn cadw gofal rhag lledaenu’r cofid.

Gwellhad

Cofion am y rhai sydd wedi methu hyd yma a dod i’r oedfaon. Er efallai nad ydych wedi medru mynychu’r capel byddwn yn meddwl amdanoch i gyd. Dymunwn well iechyd i’n trysorydd Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, sydd heb fod yn rhy dda yn ddiweddar. Diolchwn iddi am ei gwaith diflino ac i weddill y swyddogion am eu cefnogaeth i’r achos.

Llwyddiant yr ifanc

Llongyfarchiadau i ieuencid Shiloh sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau ysgol a choleg. Mae’r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd iawn i bob un ohonoch a llongyfarchwn chi ar eich camp. Enillodd Gwynfor Deiniol radd mewn Athroniaeth ac Economeg o Brifysgol Caerwysg - ardderchog Gwynfor. Da iawn oedd clywed am llwyddiant Esme a Luke Crowe, Hannah Williams, Morus Sanderson, Gwenlli Sanderson, Cerys Elen, Shwnamis Efans, Nel Mai a Myfi Celyn yn y gwahanol arholiadau. Llongyfarchwn bawb. Mae teulu Shiloh yn falch iawn ohonoch.

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR

Llun a Mawrth - wedi cau

Mercher - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

01248 602537





COFIWCH FOD GENNYM NI

CERBYD TRYDAN ADDAS I GADAIROLWYN. AR GAEL I'W LOGI GYDA GYRRWR

GWASANAETH AR GAEL I DRIGOLION DYFFRYN OGWEN GYDA GYRRWR

YN OGystal AG OFFER ERAILL MEGIS BEICS AC OFFER GARDDIO TRYDANOL



Am ragor o wybodaeth cysylltwch:
menna@ogwen.org
07512736866



Swyddi

Cydlynnydd Llyfrgell y Pethau
37 awr yr wythnos
Cyflog £23,088 pro rata

Cydlynnydd Prosiect Bws Gwennol
35 awr yr wythnos
Cyflog £25,207 pro rata

Ariennir y swydd hon yn rhannol gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Chronfa Her Cymunedau Mentrus Arfor

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **donna@ogwen.org**

Prentistiaethau Gwyrdd x 2
37 awr yr wythnos
Cyflog £5 yr awr

Am rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **menna@ogwen.org**

Ewch i wefan Partneriaeth Ogwen am becyn ymgeisio -
www.partneriaethogwen.cymru



These are job adverts for Partneriaeth Ogwen projects. The ability to speak Welsh is essential for these posts but we welcome applications from Welsh learners

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)

Colled

Rydym yn cydymdeimlo gydag Alan Radcliffe, Snowball Cottage yn y pentref. Bu farw Joy, ei wraig yn ddiweddar ar ôl salwch cäs.

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Colled drist

Fe farwodd Joy Radcliffe, Snowball Cottage, yn dawel ar ddydd Llun, Awst 9fed ar ôl misoedd o waeledd a chynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Gwener Awst 27ain. Roedd Joy yn aelod o'r Cyngor Plwyf Eglwysig ac ar bwyllgor codi arian yr eglwys. Yn wniadwraig fedrus, hi oedd yn gyfrifol am lenni'r capel a'r festri. Bydd colled ar ei hôl. Cyflwynwn ein cydymdeimlad i Alan a ofalodd amdani mor dyner. Pe dymunir, derbynir rhoddion er cof am Joy i Eglwys St Tegai Llandegai neu Hosbis Dewi Sant.

Adeilad yr Eglwys dal ar gau

Ni fu gwaith ar yr adeilad ers mis Mai oherwydd salwch yn y cwmni adeiladu arbenigol. Cafodd William Taylor, perchennog a phrif saer maen y cwmni, ei gipio yn ôl i Ysbyty Broadgreen am driniaeth bellach ac arhoswn am newyddion gwell am ei iechyd. Gyrrwn ein dymuniadau gorau ato.

Tymor Newydd

Fel cynulleidfa St Tegai, dymunwn dymor hapus a llwyddiannus i blant a staff Ysgol Llandygai, ein hysgol eglwys. Maent oll yn

haeddu amser digyffro i fyw a gweithio'n ddedwydd ar ôl cyfnod anodd o ansicrwydd.

Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai yn ystod y gwaith Atgyweirio

Yn ystod cyfnod y coronafirws a'r Atgyweirio mae aelodau'r gynulleidfa wedi cadw mewn cysylltiad clos drwy e-bost ac wedi ymuno pob Sul am 10.15 mewn cydweddi ddistaw yn y tŷ. Mae Warden y Ficer yn gyrru deunydd addoli yr Archddiacon yn wythnosol drwy e-bost. Erys Eglwys St Tegai ar gau hyd nes bydd y gwaith Atgyweirio Rhan 1 wedi ei gwblhau. Am fanylion gwasanaethau yn eglwysi Bro Ogwen, rhaid cysylltu gyda wardeniaid Glanogwen, Pentir, Tregarth, Mynydd Llandegai a St Cross Talybont. Diolch i'r Archddiacon Mary Stallard am yrru'r myfyrdodau wythnosol ar-lein.

Manylion Cyswllt

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

Mynydd Llandygai

Llongyfarchiadau

Gwych oedd gweld Barnaby Prendergast, Bwthyn Gwelain ar y rhaglen Heno dros yr haf yn siarad yn wych am ei sglefrfyrdio. Mae hi'n braf gweld ein pobl ifanc yn siarad mor hyderus ar y teledu.

Llongyfarchiadau i bobl ifanc ein hardal ar eu llwyddiant arholiadau - yn TGAU, Lefel A, arholiadau safonau uwch, diplomas neu radd. Mae wedi bod yn gyfnod hynod heriol iddynt a 'da ni'n dymuno pob llwyddiant iddynt yn eu dyfodol.

Glasingfryn a Chaerhun

Cydymdeimlo

Ar ôl gwaelled hir bu farw Allan Wynne Jones, Bwthyn y Waen, 2 Waen Wen (gynt o Fethesda) ar 18 Awst yn Ysbyty Gwynedd. Er y cyfnod hir y bu Allan yn sâl yr oedd yn hynod ffraeth a hwyliog er gwaethaf ei waeledd. Bu Allan fyw yn Waen Wen ers dros ddeugain mlynedd a bu hefyd yn weithgar efo Canolfan Glasingfryn ac yn Gadeirydd y Pwyllgor am gyfnod. Cydymdeimlir a'i briod Eleri a'i ddau fab Jonathan, sy'n byw yn Perth, Awstralia a Martin sy'n byw yn Bermuda, hefyd ei wirion a'i wyresau a'r teulu oll yn eu tristwch a'u hiraeth.

Ar 28 Awst, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Hilary Basterfield, Merddyn Gwyn, Waen Wen. Symudodd hi a'i gŵr i fyw i Waen Wen ychydig flynyddoedd yn ôl. Cydymdeimlir â'i phriod Peter a'i merch Jamie a'r teulu yn Nhyn y Lôn Tregarth yn eu profedigaeth.

Cefn Gwlad

I'r sawl sy'n mwynhau gwyllo rhaglen Cefn Gwlad, braf oedd gweld y rhaglen gyntaf yn y gyfres newydd yn sôn am deulu Jane Roberts, Pennant, Ysbyty Ifan ac fel y mae hi a'i gŵr Idris wedi magu pedair o genod a hwythau yn eu tro wedi ymwneud â ffermio. Y mae Jane yn ferch i'r diweddar Victor a Muriel Pritchard gynt o fferm Glasingfryn ac yn chwaer i Mair Pen y Bryn, Waen Wen.

Canolfan Glasingfryn

Bydd rhai o weithgareddau'r Ganolfan yn ail-ddechrau ym mis Medi, wedi cyfnod hir y Covid. Mae loga wedi dechrau ar 6 Medi am 11 y bore nes 12.30, ac mae'r Grŵp Arlunio ar ddydd Gwener am 10yb tan 12.30yp. Os am fwy o fanylion ynghylch a'r dosbarthiadau neu logi'r Ganolfan cysylltwch â Mair Griffiths ar 01248 352966.

I ddiolch i chi am gefnogi'r Cynllun Cyfaill Cymunedol...

Digwyddiadau Cyfaill Cymunedol 2021

Canolfan Cefnfaes

21 Medi - Pnawn Coffi a sgwrs gan Guto a Tom am yr Wythnos Fawr Werdd

19 Hydref - Pnawn Coffi a sgwrs gan Angharad Griffiths am fwyta'n iach a cadw'n heini

Tachwedd - Pnawn Coffi gyda canu

Rhagfyr - Pnawn Coffi 7 + 14 - Teithiau siopau dolig

Teithiau ar gael gyda ein cerbyd trydan. Taith cyntaf am ddim. Aelodaeth am flwyddyn £10 ac yna 50c bob milltir teithwyd.

Cysylltwch gyda Elen neu Anna i drefnu: elen@ogwen.org anna@ogwen.org Ffôn - 07394 906036

Petai unrhyw un yn dymuno cyfrannu, bydd pob elw yn mynd tuag at Gronfa Banc Bwyd Dyffryn Ogwen.

Byddwn yn dilyn rheolau a chanllawiau Covid-19 y llywodraeth yng Nghymru

Gall patios droi eich gardd yn lle allanol i fyw, i ymlacio, mwynhau neu weithio tu allan

CLADIO PALMANTAU TOEAU LLORIAU WALIAU TIRLUNIO

Mae Welsh Slate ar gael i brynu ar-lein ar www.ukstonedirect.com

Chwarel Penrhyn, Bethesda, Bangor Gwynedd, LL57 4YG
Ffôn 01248 600656

Newyddion o Bartneriaeth Ogwen



Ymweliad y Prif Weinidog

Daeth Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru i Fethesda yn ddiweddar i ymweld â Phartneriaeth Ogwen.

Teuliodd awr yng nghwmni staff a Chadeirydd y Bartneriaeth gan ymweld â'r swyddfeydd, Canolfan Cefnfaes, siop Cadwyn Ogwen, Siop Ogwen a gardd Tan Twr. Cafodd flas o rai o brosiectau cymunedol arloesol Partneriaeth Ogwen a rhannodd fideo canmoliaethus ar gyfrifon cymdeithasol y Llywodraeth yn diolch am waith adfywio ysbrydoledig sy'n digwydd yn yr ardal.

Roedd yr ymweliad hefyd yn gyfle i ddathlu grant gwerth £250,000 o'r gronfa Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ar gyfer datblygiad Canolfan Cefnfaes. Mae hyn yn symud prosiect Cefnfaes gam yn nes tuag at gael cyllid i'w ddatblygu'n llawn.

“Mae wedi bod yn bleser ymweld â Phartneriaeth Ogwen,” meddai'r Prif Weinidog.

“Mae'r bartneriaeth yn enghraifft wych o'r hyn y gall cymuned ei gyflawni pan fyddan nhw'n cyd-dynnu. Rwy'n falch ein bod hefyd wedi gallu cefnogi'r bartneriaeth drwy ein Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Rwy'n edrych ymlaen at weld sut y mae'r cynlluniau ar gyfer yr hen ysgol yn datblygu.

“Hoffwn i ddiolch iddyn nhw a'u holl wirfoddolwyr am y gefnogaeth y maen nhw wedi bod yn ei rhoi yn ystod y pandemig i'r



Cafodd y Prif Weinidog gyfle i daro draw i siop newydd Cadwyn Ogwen

aelodau hynny o'r gymuned sy'n agored i niwed.”

Ychwanegodd Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen:

“Roedd yn bleser dangos rhai o'n prosiectau adfywio cymunedol i'r Prif Weinidog a'i gyflwyno i'n tîm o staff a phartneriaid sy'n

gweithio'n galed.

“Mae'n wych cael y gefnogaeth a'r gydnabyddiaeth sydd eu hangen ar y gymuned a'r sector mentrau cymdeithasol. Ac rydyn ni'n ddiolchgar i Mark Drakeford am roi o'i amser ac am ddangos diddordeb yn ein gwaith.”

Wythnos Fawr Werdd Dyffryn Ogwen 20 – 26 Medi 2021

Yn ddiweddarach yn y mis, bydd yr Wythnos Fawr Werdd yn cael ei chynnal ar draws y wlad dan arweinyddiaeth y 'Climate Coalition'. Yma yn Nyffryn Ogwen byddwn ninnau yn cynnal digwyddiadau i gefnogi'r achos ac i godi ymwybyddiaeth o'r pethau allwn ni i gyd eu gwneud i helpu gyda'r argyfwng hinsawdd.

Bydd Partneriaeth Ogwen ac yn arbennig tîm Dyffryn Gwyrdd yn cynnal digwyddiadau drwy gydol yr wythnos i bawb o fewn y gymuned. Bydd hyn yn gyfle i gael blas o be' allwn ni wneud fel cymuned yn ogystal â chael gweld beth sy'n cael ei wneud o fewn y dyffryn i warchod yr amgylchedd a lleihau'n effaith ar yr hinsawdd.

O sesiynau gwybodaeth a chyngor, dangosiadau, sesiynau creu i'r teulu cyfan a mw. Cadwch olwg am ein rhaglen a rhagor o wybodaeth ac yn y cyfamser ewch i: <https://foe.cymru/cy/yr-wythnos-werdd-fawr>

Cerbyd Trydan

Cofiwch hefyd fod gennym gerbyd trydan hygyrch i gadair olwyn – sydd ar gael i'w logi gyda gyrrwr. Rydym hefyd yn llogi offer megis beics ac offer garddio trydanol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch gyda Menna ar 07512 736866 neu e-bostio menna@ogwen.org



Siop Cadwyn Ogwen

Braf gweld fod siop Cadwyn Ogwen wedi plesio'r Prif Weinidog – roedd yntau fel llawer un arall yn canmol yr amrywiaeth o gynnyrch lleol.

Mae'r siop yn mynd o nerth i nerth a bellach yn gwerthu cynnyrch gan artistiaid a gwneuthurwyr lleol. Mae'r siop ar agor ar y Stryd Fawr pob Dydd Gwener 4-6 a Sadwrn 12 - 4.

Agoriad swyddogol Hwb Dyffryn Gwyrdd

Ar ddiwrnod bendigedig o haf ymwelodd Aelod Senedd Cymru ac Aelod San Steffan yr ardal i gynnal agoriad swyddogol Hwb Dyffryn Gwyrdd, menter ddiweddaraf Partneriaeth Ogwen.

Mae'r prosiect a gefnogir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn agor canolfan wybodaeth ac adnoddau yn 27 Stryd Fawr Bethesda. Bydd yn gweithio gyda thrigolion yr ardal i wella trefnidiaeth gymunedol werdd, creu cyfleoedd gwaith a gwirfoddoli, lleihau unigedd gwledig a grymuso'r gymuned.

"Mae'r adnodd hwn yng nghanol stryd fawr Bethesda yn esiampl arall o waith da Partneriaeth Ogwen ac yn gaffaeliad i drigolion y dyffryn," meddai Siân Gwennllian wrth agor y swyddfa.

"Rydw i'n hynod falch i weld y Dyffryn Gwyrdd yn bwrw ati gyda'r gwaith pwysig hyn yn wyneb her yr hinsawdd. Mae'n hollbwysig i gymunedau weithredu ar y mater hwn ac mae'r hyn sydd dan sylw yn Nyffryn Ogwen yn ardderchog. Dymunaf pob lwyddiant iddynt ac edrychaf ymlaen at ddychwelyd i Fethesda i weld ffrwyth y llafur!"

Ychwanegodd Huw Davies, Rheolwr y Dyffryn Gwyrdd: "Rydan ni'n ddiolchgar iawn i'r Loteri ac i'n holl gefnogwyr eraill ac i'n llu bartneriaid sydd wedi'n galluogi i ddarparu'r gwasanaeth newydd hwn.

"Bydd yr hwb yn ganolfan lle bydd pobl yn medru galw i gael gwybodaeth a chyngor am adnoddau a gwasanaethau. Pob dim o gerbyd trydan a'i ddefnyddio ar gyfer mynychu apwyntiadau ysbyty, dysgu am sut i addasu beic i fod yn un trydanol, gwybodaeth am gymorth ar danwydd, gwybodaeth am gymorth ar gyfleodd gwirfoddoli gwyrdd, neu blannu a thyfu'n lleol."



Meleri Davies a Huw Davies o Bartneriaeth Ogwen gyda Siân Gwennllian a Hywel Williams yn agor Hwb Dyffryn Ogwen yn swyddogol

Difyrion Digidol Deian ap Rhisiart



Fis yma rydw i am sôn ychydig bach mwy am fy swydd fel ymgynghorydd cynhwysiad digidol. Os ydych yn cofio, mi wnes egluro ychydig am hyn yn yr erthygl gyntaf dros wyth mis yn ôl bellach. Ydi, mae'r amser wedi hedfan!

I'ch atgoffa, cynhwysiad digidol ydi sicrhau fod gan bawb o bob oed a chefnidir y sgiliau angenrheidiol i allu defnyddio technoleg yn hyderus, boed yn ffôn clyfar, tabled neu liniadur. Dyna'r nod i ni fel rhaglen Cymunedau Digidol Cymru.

Ac ers mis Ebrill, rwyf wedi cymryd rôl newydd o fewn rhaglen Cymunedau Digidol Cymru fel ymgynghorydd cynhwysiad digidol yn gweithio gyda mudiadau, elusennau a chymdeithasau sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg. Mae gan y swydd newydd sbôn sgôp eang i fynd ati i gynorthwyo pobl a grwpiau i ymwreiddio hyder digidol o fewn mudiadau a chymdeithasau cymunedol ar hyd a lled Cymru.

Mae gan y Gymru Gymraeg draddodiad anrhydeddus o wirfoddoli, sy'n aml yn cael ei ddisgrifio fel 'helpu allan', y bobl hyn yw asgwrn cefn ein cymunedau. Mae llawer ohonynt yn aelodau o bwyllgorau cymdeithas hanes, eisteddfodau lleol, Merched y Wawr, yr Urdd ac yn fwy na thebyg yn weithgar yn eich papur bro chi.

Dyma'r diwylliant sy'n cynnal ein diwylliant i bob pwrpas. Rhoddodd 2020 a rhan fawr o 2021 y stop ar lawer o'r gweithgarwch lleol a chenedlaethol ac fe symudodd popeth i fod yn

rhithiol. Er bod y cyfyngiadau bellach wedi llacio, mae hi'n dal yn hanfodol i fynd ati i rymuso ein cymunedau trwy dechnoleg.

Fe gynhaliwyd sesiwn yn ddiweddar yn trafod ymateb cymunedau Cymraeg i'r oes ddigidol newydd. Cafwyd cyflwyniadau gan Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Merched y Wawr; Gwenlli Evans, Cwmni Bro Ffestiniog a Sel Jones, Llety Arall, Caernarfon. Roeddynt i gyd yn siarad am y modd y maent wedi defnyddio technoleg er budd y Gymraeg.

Un ffaith ddiddorol a arhosodd yn y cof oedd bod miliwn o argraffiadau wedi'u cael eu gwneud gan Wasg Carreg Gwalch o gyfrol Curo'r Corona'n Coginio - mae hynny'n rhyfeddol. Dyma syniad a ddechreuodd ei daith anhygoel ar y cyfryngau cymdeithasol wrth i bawb rannu ryseitiau a lluniau o'u creadigaethau ac a ledodd fel tân gwyllt. Siaradodd Gwenlli am y modd maent wedi gweithio'n galed ym Mlaenau Ffestiniog i sefydlu sianel deledu BROcast ar y We 'gan y gymuned ar gyfer y gymuned'. Roedd Sel yn olrhain sefydlu menter gymdeithasol gyffrous Llety Arall sy'n cynnig gwyliau Cymraeg a Chymreig o fewn muriau hanesyddol tref Caernarfon. Codwyd yr arian i Llety Arall ar y We trwy dorfoli. Enghraifft wych o ddefnyddio technoleg er gwell.

Wrth i ni wynebu'r dyfodol, mae'n holl bwysig i'n diwylliant barhau i fod

yn fywiog a hyfyw yn y byd tu allan a gobeithio gyfarfod wyneb yn wyneb mewn neuaddau pentref yn fuan. Ond mae'r un mor bwysig i ddal ati fel unigolion ac fel grwpiau o bobl i ddefnyddio technoleg. Rydym yn awyddus i weld gwirfoddolwyr digidol yn defnyddio'i hyder i helpu eraill yn ein cymunedau - teulu, cymdogion, preswylwyr cartrefi henoed, swyddogion eisteddfodau bach, mae'r rhestr yn ddi-ben-draw. Er enghraifft, y llynedd am y tro cyntaf erioed roedd dynes 107 yn gallu mynychu cyfarfod cangen o Ferched y Wawr a hynny trwy Zoom. Ni fyddai hynny wedi bod yn bosib cyn y pandemig. Felly, mae'n bwysig i'n mudiadau lleol a chenedlaethol a'n cymunedau barhau i gofleidio technoleg er lles y Gymraeg. Mae'r ffaith fod rhywun dros ei chant wedi gallu ymuno mewn cyfarfod cangen o Ferched y Wawr yn profi fod technoleg yn gallu gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Os ydych chi'n awyddus i wirfoddoli gan helpu pobl i ddefnyddio ei gliniaduron, tabledi neu ffônau clyfar, cysylltwch ar bob cyfrif. Nid oes raid bod yn arbenigwr o gwbl, dim ond ryw ddealltwriaeth sylfaenol wrth ddefnyddio dyfeisiau digidol.

Cysylltwch gyda ni drwy e-bostio Cymunedau. Digidol@wales.coop ac fe allwn eich rhoi mewn cysylltiad gyda sefydliadau gwirfoddoli ar hyd a lled Cymru.



Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Dw i'n dal i bori ymhlith dyddiaduron David David Evans, Glanrafon, Gerlan. Maen nhw'n ffynhonnell werthfawr o ran rhoi cipolwg ar agweddau ar fywyd yn Nyffryn Ogwen mewn gwahanol gyfnodau yn ei hanes.

Penderfynais y tro hwn y byddwn yn codi ambell gofnod o'r 1950au fel y nodwyd hwy gan DDE, ond gydag ambell ychwanegiad gen i mewn bachau petryal – fel hyn [...].

DYDD MAWRTH, IONAWR 10, 1950:
Mr W. J. Lloyd, Ysgolfeistr Rachub, yn rhoddi darlith ar y Geiniog yn Treflys.
[Rwy'n siŵr y byddem i gyd yn hoffi cael gwybod be' oedd gan y Prifathro i'w dd'eud wrth aelodau Capel Treflys am y 'Geiniog']

DYDD LLUN, IONAWR 13, 1950:
Awyren yn dod i lawr ar ochr Bryniau Melynion; 6 yn colli eu bywydau.
[Cefais hyd i'r manylion a ganlyn am y digwyddiad ar Wefan y BBC: Awyren fomio o Sir Lincoln oedd hi, a oedd yn hedfan i gyfeiriad maes awyr y Llu Awyr yn y Fali, Sir Fôn, yn oriau mân y bore mewn tywydd garw. Yn ôl llygad-dystion lleol, disgynnodd yr awyren

i'r ddaear mewn pelen o dân. Yn adroddiad y BBC, dan y pennawd 'Bethesda bomber crash remembered 70 years on', nodir mai dau ddyn lleol a arweiniodd aelodau'r Frigâd Dân at yr awyren, sef Owen Brown-Williams [o'r Tŷ Dŵr] a John Ogwen Thomas [ffarm Tyddyn Du, tad Nesta, Alun a Gwyn]. OND, ac mae'n rhaid i mi osod y dirgelwch hwn ger eich bron, Ionawr 13 ydi'r dyddiad a gofnododd DDE fel dyddiad y ddamwain ond Mawrth 15 ydi'r dyddiad gan y BBC. Dw i'n gyndyn o daflu'r bai ar DDE ond tybed a all unrhyw un o ddarlennwyr *Llais Oghan* gael hyd i'r gwir!]

DYDD SADWRN, EBRILL 1, 1950:
Dadorchuddio Cofeb y Milwyr, 1939, ym Methesda.
[Ym 1924 y dadorchuddiwyd y Gofgolofn yn coffáu'r rhai a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf ond codwyd dwy gofeb, oedd yn llai o ran maint ac yn wahanol eu siâp, ar y naill ochr a'r llall i'r Gofgolofn fawr, i gofio'r rhai a gollodd eu bywydau yn yr Ail Ryfel Byd. Parhaed ein parch i'r dewrion hyn.]

DYDD LLUN, AWST 7, 1950:
Meredydd Jones, F[frydlas] Rd., yn priodi

gyda Nurse Mary Hwfa Jones, Llangefni.
[Cofiaf y ddau hyn yn dda – Meredydd yn flaenor yng Nghapel Jerusalem ac yn morio canu yn y Sêl Fawr a Nyrs Hwfa yn ddynas fechan yn gyrru ei Morus Mil heb newid o'r ail gêr wrth fynd ar hyd Stryd Fawr Bethesda, yn fwg ac yn sŵn i gyd, a dim ond yn medru sythu digon yn ei sêl, ar y glustog foethus y tu ôl iddi, i allu gweld dros y llywl!]

DYDD LLUN, RHAGFYR 15, 1950:
Sale of Work yn Treflys. Elw £42-12-0.
[Ddydd Sul, Gorffennaf 2, y penderfynwyd yng Nghapel Treflys i gael 'Sale of Work Nadolig' Wrth ddarllen y geiriau hyn, cofiais am gyfarfod un tro o Bwyllgor Capel Jerusalem, lle bu sôn am gynnal gweithgaredd fel a gynhelid mewn sawl addoldy arall yn y Dyffryn. 'Be' am Jumble Sale', awgrymodd un aelod. Ac fel chwip, meddai aelod arall, yn ddigon chwyrn: 'Jumble Sale' meddai, gan roi pwyslais ar y gair cyntaf, ac ychwanegu 'Jumble Sale yn Jerusalem! Bobol bach! Dw i ddim yn cofio be'n union a benderfynwyd yn y pen draw ond, yn bendant, fuo 'na ddim 'Jumble Sale']

I'w barhau

Haf o Hwyl Plas Ffrancon



Gyda deunaw mis heriol wedi mynd heibio, mae Canolfan Byw'n Iach Plas Ffrancon wedi bod yn cynnig pob math o weithgareddau i blant yr ardal fel rhan o ymgyrch Haf o Hwyl eleni.
Roedd yr ymgyrch cenedlaethol, a gefnogwyd gan Gyngor Gwynedd, Comisiynydd Plant Cymru, Chwaraeon

Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Urdd, yn darparu sesiynau hwyliog am ddim i blant dros y gwyliau. Bu'r sesiynau amrywiol a gynhaliwyd ym Mhlas Ffrancon yn gyfle i blant a rhieni allu ymlacio a chymdeithasu'n ddiogel.
Dywedodd Amanda Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach:
"Rydym yn ymwybodol iawn fod plant a phobl ifanc wedi colli allan ar nifer fawr o gyfleoedd i gadw'n heini, dysgu sgiliau a chymdeithasu efo ffrindiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
"Mae'r rhaglen Haf o Hwyl wedi darparu amrywiaeth eang o weithgareddau i bob oedran gan ganolbwyntio ar fwynhau a chael hwyl efo ffrindiau mewn amgylchedd diogel ac roedd hi'n wych gweld y plant yn mwynhau ym Mhlas Ffrancon."

Roedd rhaglen amrywiol trwy gydol yr haf, gyda gweithgareddau i bob oedran, gan gynnwys sesiynau chwarae meddal, beicio balans i'r rhai bach, sesiynau aml-chwaraeon i'r criw oed cynradd a sesiynau ffitrwydd a galw heibio ar gyfer yr oedran uwchradd.
Darparwyd cefnogaeth ychwanegol gan staff Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd a nifer o gyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol. Mae Byw'n Iach yn ddiolchgar am eu cyfraniad at y rhaglen Haf o Hwyl ac yn gobeithio gallu cydweithio eto yn y dyfodol.
Bydd Byw'n Iach yn parhau i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a sesiynau egniol ar gyfer plant a phobl ifanc trwy'r hydref. Am y diweddara, cadwch lygad allan ar y wefan, www.bywniach.cymru a chyfrifon cymdeithasol Byw'n Iach a rhaglenni Plas Ffrancon am fwy o wybodaeth.

Cefnogaeth i brynwyr tro cyntaf

Mae'r argyfwng tai presennol yn golygu fod nifer cynyddol o bobl leol yn ei chael yn anodd iawn i gystadlu yn y farchnad dai ar hyn o bryd.

Mae hyn yn ei dro yn peryglu dyfodol ein cymunedau. Er bod angen datrysiad ar lefel cenedlaethol, mae yna gefnogaeth ar gael yn lleol, ac mae Cyngor Gwynedd yn blaenoriaethu £1 miliwn ar gyfer y Cynllun Prynu Cartref yn y sir.

Mae'r cynllun benthyciad ecwiti, yn rhoi benthyciad o rhwng 30% a 50% o bris tŷ, gyda'r prynwr yn ariannu'r gweddill drwy forgais, neu gyfuniad o gynilon a morgais.



“Rydym ar hyn o bryd yng nghanol argyfwng tai sy'n peryglu dyfodol ein cymunedau,” meddai Aelod Cabinet Tai Cyngor Gwynedd, y Cyngorydd Craig ab Iago.

“Mae'n allweddol felly ein bod ni fel Cyngor yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod gan bobl Gwynedd pob help posib i allu cael cartref addas yn eu cymunedau.

“Bydd y cynllun yma yn helpu ein pobl i fod berchen tŷ yn lleol pan na fyddent fel arall yn gallu fforddio prynu tŷ am y tro cyntaf, neu yn byw mewn tŷ anaddas a ddim yn gallu fforddio i symud i dŷ mwy addas sy'n cyfarch anghenion y teulu.”

Mae'r cynllun sy'n cael ei weinyddu gan 'Tai Teg' yn addas i bobl:

- sydd dros 18 mlwydd oed;
- mewn cyflogaeth gydag incwm gros y cartref rhwng £16,000 a £45,000 y flwyddyn;
- sy'n brynwyr tro cyntaf;
- neu fod eu cartref presennol yn anaddas a ddim yn cwrdd ag anghenion eu teulu, a ddim yn gallu fforddio i brynu eiddo sydd yn addas i'w anghenion.

Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru diddordeb, ewch i www.taiteg.org.uk

MODURDY
FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. L. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

 600723

Ffacs: 605068

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni
(01248) 723106

Porthaethwy
(01248) 719517

Benllech
(01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

JOHN ROBERTS



Paentiwr
Papurwr
Teilsiwyr

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Plaid Cymru - Cangen
Dyffryn Ogwen

Fel y cyfarfodydd a gynhaliwyd ers Mawrth 2020 ar zoom hefyd y cynhaliwyd ein Cyfarfod Blyneddol eleni. Croesawyd pawb gan ein Cadeirydd Bledwyn Williams a chrynhodd y flwyddyn ddiwethaf.

Nid oedd modd wrth gwrs cynnal unrhyw weithgaredd, ond yr oedd un digwyddiad pwysig sef Etholiad Llywodraeth Cymru. Braf oedd cael dweud bod codi ychydig ar y cyfyngiadau wedi ein galluogi i wneud ychydig o ymgyrchu a

chroesawyd Siân Gwenllian i'r ardal hefyd. Braf oedd cael adrodd bod Siân wedi cadw ei sedd gyda mwyafrif o dros wyth mil a hanner. Dymunwn yn dda iddi dros y tymor newydd.

Cawsom adroddiad ariannol gan ein trysorydd Neville Hughes, oedd yn gobeithio y buasai pethau'n gwella yn y dyfodol er mwyn i ni allu cyfarfod a chynnal gweithgareddau yn ddiogel unwaith eto.

Aethpwyd ymlaen i godi swyddogion fel a ganlyn: Cadeirydd - Bledwyn

Williams

Is-gadeirydd - Catrin Wager

Trysorydd/ Ysg Aelodaeth - Neville Hughes

Ysgrifennydd - Mary Jones

Mae gan y gangen dudalen gweplyfr sef Plaid Cymru Dyffryn Ogwen ac ar y trydar Plaid Cymru Ogwen.

Cynhelir etholiadau'r cynghorau yn Mai 2022 felly bydd angen trafodaethau a threfnu cyn hynny. Felly cynhelir ein cyfarfod nesaf yn ystod mis Medi. Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb a'u cefnogaeth.



post@
llaisogwan.
com

CHWILAIR



CHWILAIR MEDI

Plwyfi Sir Fôn

A	A	W	F	H	R	A	B	E	R	F	F	R	A	W	I	E	B	J	L
C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	O	G	V
C	H	M	D	P	E	N	R	H	O	S	L	L	U	G	W	Y	D	W	H
U	E	Z	L	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	E	S	O
F	R	R	P	L	Y	G	W	R	E	D	O	G	Q	Z	G	R	W	H	C
U	M	W	R	N	A	O	Y	R	I	A	S	Z	U	T	F	D	R	X	U
P	W	R	H	I	C	N	Q	H	W	E	H	O	Y	E	E	G	Y	E	O
M	H	E	P	T	G	T	G	C	B	B	C	U	U	J	P	L	D	T	M
I	V	V	D	C	B	C	B	E	F	R	F	O	G	J	V	I	I	R	R
X	I	M	H	T	T	O	E	S	F	K	O	P	W	R	C	M	K	C	B
O	R	C	X	V	R	Y	H	I	S	N	T	M	R	E	F	Y	J	D	Z
H	B	C	W	O	S	C	R	A	N	I	I	X	N	S	I	N	L	X	J
J	M	B	W	T	E	X	M	D	X	W	K	F	U	Y	N	O	P	C	Q
Y	O	I	L	F	E	R	Z	Q	R	O	E	C	T	W	A	M	D	G	W
S	L	Z	E	B	E	A	J	K	J	C	L	N	N	L	E	N	L	R	V
O	G	G	O	D	Y	R	F	Y	D	N	A	L	L	G	A	E	J	P	W
P	H	T	E	A	R	H	C	A	F	N	A	L	L	E	G	P	G	S	O
W	J	J	Q	U	L	F	S	V	T	X	E	U	G	N	E	H	S	L	Z
E	N	Y	L	O	C	S	O	H	R	A	F	X	I	E	R	W	T	Z	H
K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I	K	O	G	H	T	D	H	B	S

Yn y chwilair mis yma mae ENW DEUDEG PLWYF YN SIR FÔN i’w darganfod, mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i’r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn MEDI 23ain. Bydd gwobr o £10 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna’r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

DYMA ATEBION CHWILAIR GORFFENNAF.

Aderyn-Drycin (Fulmer); Aderynybwn (Bittern); Alarch Dof (Mute Swan); Barcyd Coch (Red Kite); Bilidowcar (Cormorant); Grugiar Goch (Red Grouse); Gŵydd Dalcenwen (White fronted Goose); Gŵydd yr Aifft (Egyptian Goose); Hwya-den Bengoch (Pochard); Hwya-den Wylt (Mallard); Pedryn Drycin (Storm Petrel); Trochydd Gyddgoch (Red-throated Diver).

Nyth y Gân



Y DDERWEN

Cofiaf hi yn fechan yn tyfu yn yr ardd,
Talsyth bryd hynny a'i changau mor hardd.
Blynnyddoedd aeth heibio a dal yr oedd hi
I fyw ac ymledu fel tonnau y lli.

Bu'n gartref i amryw o adar y fro
I nythu a magu eu cywion sawl tro,
A hefyd bu'n lloches i lu o rai mân
Gartrefai'n fan honno dan frigau y gân.

Mae heddiw yn addurn wrth bared y tŷ
A'r llestri yn gorwedd mor dwt arni'n llu.
Hanesion diddorol a geir ganddi'n awr
Yn edrych mor gadarn â'i thraed ar y llawr.

WEDI'R STORM

Yn bygwth daeth fel bwgan, – cysgodion
Cas gydiodd ym mhobman;
Yna daeth y lleuad wan
O wyll cymylau allan.

DAWNS Y GWENYN

Nifer o berlau bychain
A ddawnsiai yn yr ardd,
A'r haul â'i dwym belydrau
Yn troi y lle mor hardd.

Bu'r rhain yn dal ein sylw
Am gyfnod gweddol hir,
Ac mor odidog oeddynt
Yn chwifio uwch y tir.

Ond darfod wnaeth y dawnsio
A'r perlau aeth i ffwrdd,
Ond gobaith a ddaw inni
Y cawn ni eto gwrdd.

Y NANT

Mae'n wych mewn mannau uchel, – rhed y dŵr
Hyd y dydd mor dawel;
Yn y pwll mae hi fel pêl,
Yna mae'n syth ei hannel.
Dafydd Morris

DIFATERWCH Y CYMRY

Y genedl na fyn gynnydd, – na dewis
Diosg ei chywilydd;
Hedd swyn ei dihidrwydd sydd
Yn ei dwyn i'w dihenydd.

FFYDD

Ei Gariad sy'n ddigerydd, – yn gyfan,
Yn gafael mewn stormydd,
A pherffaith yw ffaith ein ffydd
Yn gywir yn dragywydd.

Y CARNEDDAU YN OES Y TYWYSOGION

Anheddau fu'r caerau cu – i hanes,
I enaid y Cymry;
Llochesau mewn dyddiau du
A nawdd i lin gynyddu.

GLAS Y DORLAN

Â'i arlwy islaw'r dorlan, – ei ystum
Sy'n astud a buan;
Saethwr i'r dŵr fel ar dân
Wrth wanu nerth ei anian.

LLUN OGWEN AR HWYRNOS O HAF

Mirain fel glain rhwng glennydd, – a'i donnau
Yn dyner, ysblennydd
Heno yng nghôl y mynydd
Yn dawnsio'n hedd diwedd dydd.

SGRECH Y COED

Byr ei hediad dibryder – yn harddu
Gerddi â'i gyflawnder;
Eiliw paun â'i aeliau pêr
Yn un-darn gwiw o 'sblander.

Goronwy Wyn Owen



SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau
Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH
LLEOL**




Llais Ogwan

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes
600853

JAMIAU CARTRA'

(Amrywiaeth ar gael)

Cysylltwch â gwefan
CADWYN OGWEN
neu Neville ac Angharad
(ffoniwch nhw ar 600853)
Elw at Elusennau




CROESAIR

AR DRAWS

- 1 Ail gartref ar gyfer gwyliau (2,2)
- 3 Y plentyn ieuengaf ‘yn --- bach y nyth’ (3)
- 8 ‘Paid â ---- !’ Siarad nonsens, rwdlan a mwydro (5)
- 9 Digalondid am na welir gwell (7)
- 10 Llanast di-drefn neu bwdin melys (7)
- 11 Gwgu’n anfodlon (5)
- 12 Daw i’r adwy pan fydd gŵr pwysica’r dref yn absennol (7,4)
- 17 Y dail yn taflu yn nhymor geni’r oenig ansicr (5)
- 19 Un o’r pump sy’n help i ni weithredu fel person (7)
- 21 Llauer o 2 I LAWR (7)
- 22 Cael gweld cylchgrawn wythnosol (5)
- 23 Diwrnod y tu ôl i’r gaer i weld y brif un (3)
- 24 Nid mor anodd (4)

I LAWR

- 1 At y cob yn llechwraidd i gael smoc (6)
- 2 Cychwyn hapus o flaen bore niwlog i fynd i’r capel yma (5)
- 3 Mymryn o gastell cyn chwarae yn drefnus i amgylchynu’r lle (7)
- 4 Mae ychydig dros 520 ohonynt yn 15 I LAWR (6)
- 5 Blodyn y gwanwyn (6)
- 6 Nefolaidd (11)
- 7 Ar wyneb y car efallai wedi damwain (4)
- 13 Cymraeg, Cernyweg a Llydaweg yn rhai Celtaidd (7)
- 14 Mae greff’n iawn ar ginio Sul, ond rhaid ei gymysgu i’w roi ar sglodion (6)
- 15 Dau gyfan a gafwyd hyd yma yn y ganrif hon (6)
- 16 Drama seicolegol ar S4C a welwyd yn gynharach eleni (6)
- 18 Mae Deio yn un drwg am adael pethau’n ben set (4)
- 20 Bu’n drydanol gynhyrchiol ar yr ynys (5)



ATEBION CROESAIR GORFFENNAF/ AWST 2021

AR DRAWS 1 Cnu, 3 Traws, 7 Gardd, 8 Pythefnos, 9 Sylweddoli, 12 Yn Glep, 13 Gweini, 15 Anafiadau, 18 Gwobrwyo, 20 Dawn, 21 Lodes, 22 Rîl

I LAWR 1 Craff, 2 Urddasol, 3 Teth, 4 At Fro, 5 Siomiant, 6 Epilepsi, 10 Ergydion, 11 Anfarwol, 14 Ecuador, 16 Arbed, 17 Hwyl, 19 Wes

Gobeithio i chi fwynhau’r seibiant dros wyliau’r haf. Dyma ni unwaith eto yn barod i gychwyn ar bos y Croesair, ac am y tro cyntaf ers misoedd lawer yn ei gyfri’n gystadleuaeth fel yn y ‘Cyfnod Cyn Covid’! Gobeithio’n wir y bydd y ffyddloniaid yn ail-afael yn y sialens, a chroeso mawr i rai newydd ohonoch sydd awydd rhoi cynnig arni.

Atebion erbyn 1af Hydref, 2021 *fan bellaf* i ‘Croesair Medi’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

+

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

+

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Pesda’n Cadw Tarian Cleif Llewellyn

Ar lawnt fowlio Bethesda dan haul poeth ar Fedi’r 2il, llwyddodd Bethesda i ddal gafael yn nharian Cleif Llewellyn a hynny am y nawfed tro.

Mae’r gystadleuaeth hon yn un flynyddol rhwng Clwb Bowlio Llanfairfechan a Chlwb Bowlio Bethesda, pryd bydd tarian hardd yn cael ei chyflwyno i’r tîm buddugol i’w chadw am flwyddyn. Roedd hi’n gêm glos yn y diwedd ond Bethesda a orfu o dan arweiniad ysbrydoledig eu capten medrus, Maldwyn Pritchard.

Eleni, mae Maldwyn wedi mwynhau llwyddiant ym mhob cynghrair ac wedi

llwyr gyfiawnhau ei le fel arweinydd. Prawf o hynny yw’r ffaith fod tîm hîn Bethesda yn ail o’r brig yng Nghyghrair Bowlio Gwynedd.

Gofynnodd Llais Ogwan i Maldwyn beth sydd i gyfrif am y ffaith fod tîm hîn Bethesda wedi gwneud mor dda eleni ac meddai Maldwyn: “Dwi’n meddwl bod y tîm yn ymateb yn dda i esiampl gadarn ac i ddewis chwaraewyr sy’n medru perfformio dan bwysau.”

Cyfeiriodd at rai fel John Baston a Heddwyn Morris sydd wedi perfformio’n eithriadol er gwaethaf ambell i gam gwag. Yna, soniodd am Fred Buckley,

Denzil Jones, George Owen a Derec Gruffydd, cyn cyfaddef yn ei ddull swil ei hun ei fod yntau wedi dangos y ffordd i bawb gan gynnwys y gweiniaid yn y tîm.

Dwy a fu’n gaffaeliad ac yn ysbrydoliaeth i’r tîm eleni oedd Rita Lewis a Wendy Thomas. Mae’r ddwy yn fowlwyr medrus a di-ildio ac mae’n dda nodi bod Gloria Williams wedi chwarae efo’r tîm yng nghystadleuaeth Cleif Llewellyn. Fel y nododd Maldwyn: “Bydd yr ychwanegiadau hyn yn rhoi digon o ddewis i mi allu rhoi gorffwys i’r rhai sy’n tangyflawni y flwyddyn nesa.”



Georgina Hollas a Wendy Thomas gyda tharian Cleif Llewellyn



Y ddau dîm ar y lawnt wedi’r seremoni cyflwyno Tarian Cleif Llewellyn i dîm Bethesda (Lluniau: Georgina Hollas)

SIÂNGWENLLIAN

AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

sian.gwenllian@senedd.cymru

YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

hywel.williams.mp@parliament.uk

YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

Chwaraeon



Calum ar y copa

Mae Calum Muskett wedi dringo rhai o fynyddoedd uchaf Ewrop

Mae'r mynyddwr o Fraichmelyn, Calum Muskett wedi cael haf prysur yn dringo a thywys pobl i frig rhai o gopaon ucha'r Alpau.

Yn un o fynyddwyr ifanc mwyaf talentog Cymru, mae Calum yn ddringwr proffesiynol. Ond mae'n dweud fod ei fagwraeth yma yn Nyffryn Ogwen wedi sbarduno ei awydd am fenter yn yr awyr agored.

"Roeddwn i'n fy arddegau pan nes i ddechrau dringo a mynydda go-iawn, cyn hynny roeddwn i wedi bod yn chwarae rygbi," meddai Calum.

"Mae Bethesda yn lle gwych i fyw os ydych chi'n mwynhau chwaraeon awyr-agored, yn dringo

creigiau, cerdded brynau, beicio neu bysgota.

"Mae'n wych gweld mwy a mwy o bobl leol yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn rŵan. Y gwir ydi ei fod yn un o'r llefydd gorau ar gyfer chwaraeon awyr-agored gydag amgylchedd mor arbennig yn y Carneddau a'r Glyderau.

"Mae'r dringo yng Nghymru yn eithaf unigryw yn yr ystyr bod gennych chi lawer o wahanol fathau o greigiau fel llechi, calchfaen a rhyolit sy'n wych ar gyfer adeiladu techneg ddringo. Ac mae yna ddringfeydd sy'n gofyn llawer yn gorfforol yn ogystal â rhai sy'n rhoi her seicolegol go iawn am nad ydach chi eisiau disgyn!"

Dros y misoedd diwethaf mae wedi bod yn hynod brysur yn dringo a thywys ar

fynyddoedd fel y Matterhorn, Mont Blanc a'r Eiger. Ond gyda'r haf wedi dirwyn i ben, mae'n debyg iawn y byddwn yn gweld mwy o Calum nol adref yn Nyffryn Ogwen.

"Pan nad ydw i'n tywys yn llefydd fel yr Alpau, rydw adref ym Methesda yn hyfforddi ac yn arwain dringo a hefyd yn gwneud rhywfaint o waith ymchwil i'r Bartneriaeth Awyr Agored.

"Rydwn i bob amser yn mwynhau bod adref a mwynhau'r amgylchedd anhygoel. Mi fyddai bob amser yn hapus iawn i helpu unrhyw un yn lleol i ddringo – felly os ydych chi'n fy ngweld o gwmpas y dref mae croeso i chi fy stopio a holi cwestiynau!"

Pencampwyr criced y gogledd

Fis Awst, fe sicrhodd Tîm Criced Merched Bethesda Cynghrair Criced Merched Gogledd Cymru.

Yr Howgets yw enillwyr cyntaf y gynghrair newydd hon, sy'n cynnwys clybiau ar draws y gogledd fel Bae Colwyn, Llandudno, Dolgellau, Conwy, Llaneurgain, Neuadd Llaneurgain Hall a Carmel.

Gorffennodd Bethesda'r tymor yn ddi-guro ar frig y tabl, gyda 14 buddugoliaeth allan a 70 pwynt. Mae'r tîm wedi bod yn adeiladu

tuag at gymryd rhan yn y gynghrair ers peth amser, a'r llwyddiant yn hollol haeddiannol am eu hymroddiad, brwdfrydedd a'u talent.

Gyda timau'r dynion, mae'r tîm cyntaf yn brwydro yn agos at waelod y tabl, gyda'r ail dîm angen buddugoliaeth yn erbyn tîm cyntaf Mynydd Isa ar ddiwrnod ola'r tymor i sicrhau dyrchafiad.

Mae'r clwb bob tro'n croesawu chwaraewyr a gwirfoddolwyr newydd. Os hoffech chi fod yn rhan o un o'r carfannau y tymor nesaf (timau ieuenctid, dynion neu merched) cofiwch gadw golwg ar gyfryngau cymdeithasol y clwb am fanylion.

Rhys Pritchard

